Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

# Strategaeth Gomisiynu Dyfed-Powys

**Gorffennaf 2022**

# Cynnwys

Cyflwyniad ........ 4
Dyletswyddau Statudol y CHTh ........ 4
Cynllun yr Heddlu a Throseddu ........ 6
Protocol Plismona ........ 6
Dull o Gomisiynu ........ 7
Egwyddorion Comisiynu ........ 9
Prif Egwyddorion ........ 10
Llwybrau Comisiynu ........ 10
Comisiynu Uniongyrchol ........ 10
Cyd-gomisiynu ........ 11
Grantiau ........ 11
Arall ........ 11
Cyllideb Gomisiynu ........ 12
Proses gaffael ........ 16
Contractau ........ 16
Llywodraethu ........ 17
Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu ........ 18
Monitro Gwasanaethu a Gomisiynir a Chanlyniadau ........ 19
Adrodd ........ 19
Rheoli Risgiau ........ 20
Cynllun Archwilio Gwasanaethau a Gomisiynwyd ........ 20
Grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder ........ 21
Cynlluniau'r dyfodol ar gyfer y Gwasanaethau Archwilio ........ 23
Cyfathrebu ........ 24
Asesiad o Anghenion ac Adolygiad o Wasanaethau ........ 24
Atodiad 1: Proses ar gyfer ceisiadau am gyllid grant i'r Comisiynydd ........ 27
Atodiad 2: Asesiad o Anghenion Dyfed-Powys 2019: Dioddefwyr a Phobl Fregus ........ 39
Atodiad 3: Prif argymhellion ac ymatebion ........ 47
Atodiad 4: Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Dioddefwyr ........ 59

# Cyflwyniad

Mae Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar gyfer Dyfed-Powys yn gweithredu fel llais y cyhoedd ar faterion plismona a throseddu. Y Comisiynydd sy'n gyfrifol am bennu'r cyfeiriad strategol ar gyfer plismona o fewn ardal yr Heddlu. Mae heddlu Dyfed-Powys yn cwmpasu siroedd Caerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys. Mae yna boblogaeth o dros 488,000, sy'n cynyddu'n sylweddol bob blwyddyn gyda dyfodiad twristiaid, ac mae'n ymestyn dros hanner tirwedd Cymru.

Mae'r strategaeth hon yn nodi pwrpas a chyfeiriad gweithgareddau comisiynu sydd yn swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys. Mae'n rhoi manylion am y gyllideb a'r gwasanaethau a ddarperir o dan Gynllun yr Heddlu a Throseddu ac mae'n amlinellu'r broses ar gyfer llywodraethu a monitro'r ddarpariaeth o wasanaethau.

# Dyletswyddau statudol y CHTh

Mae gan y CHTh nifer o ddyletswyddau statudol fel y'u nodir yn Neddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 (y Ddeddf). Yn ogystal â'u rôl plismona craidd, mae gan y CHTh gylch gwaith i dorri trosedd ac anhrefn ac mae ganddynt bwerau comisiynu a chyllid i'w galluogi i wneud hyn. Mae'r Ddeddf yn rhoi pwerau i Gomisiynwyr ddyfarnu grantiau i unrhyw sefydliad neu gorff i gyflawni eu blaenoriaethau diogelwch cymunedol.

Ar ôl cychwyn y rôl yn 2012, derbyniodd y Comisiynwyr grantiau cyfunol sy'n cynnwys cyllid a ddyfarnwyd yn flaenorol i ystod o sefydliadau (Partneriaethau Diogelwch Cymunedol a Rhaglen Ymyrraeth Cyffuriau'r Swyddfa Gartref). Diogelwyd cyllid er mwyn galluogi Comisiynwyr i ddefnyddio'r cyllid yn fwy rhydd. Mae'r cyllid grant hwn yn cael ei ddarparu gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder o dan bwerau a roddwyd i'r Ysgrifennydd Gwladol gan adran 56 o Ddeddf Trais yn y Cartref, Trosedd a Dioddefwyr 2004 (DVCVA 2004). Mae hyn yn nodi y gall yr Ysgrifennydd Gwladol "dalu grantiau o'r fath i bersonau y mae o'r farn eu bod yn briodol mewn cysylltiad â mesurau sy'n ymddangos iddo i gynorthwyo dioddefwyr, tystion neu bersonau eraill yr effeithir arnynt gan droseddau".

Mae gan gomisiynwyr ddyletswydd hefyd i ddefnyddio llais y cyhoedd, pobl fregus a dioddefwyr. O fis Hydref 2014, mae’r CHTh wedi bod yn gyfrifol am gomisiynu gwasanaethau dioddefwyr yn lleol. Mae hyn yn cyd-fynd â'r Weinyddiaeth Gyfiawnder sy'n dal nifer o gontractau cenedlaethol gyda darparwyr ar gyfer gwasanaethau gan gynnwys y gwasanaeth dynladdiad cenedlaethol a'r gwasanaeth cyngor i dystion yn y llys. Mae yna ddeialog barhaus rhwng y CHTh a gweinidogion ynglŷn â'r dull gorau o ddatganoli comisiynu gwasanaethau.

Roedd y ddyletswydd diogelwch cymunedol a'r ddyletswydd cyfiawnder troseddol yn rhoi cyfrifoldebau ar y CHTh personol i weithio gyda phartneriaid i atal a mynd i'r afael â throseddu. Mae'r dyletswyddau statudol yn fwriadol eang a hyblyg, fel bod modd caniatáu i drefniadau gweithio ddatblygu mewn ffordd sydd fwyaf ystyrlon yn lleol. Nod y dyletswyddau yw i sicrhau bod y penderfyniadau buddsoddi a blaenoriaethu a wneir gan y Gomisiynwyr a'u partneriaid yn cael eu gwneud gyda dealltwriaeth lawn o'r goblygiadau i'r holl bartneriaid. Rhaid i'r Comisiynydd hefyd fod yn 'Bartner Perthnasol' mewn Partneriaethau Plant a Phobl Ifanc ac mae'n gyfrifol am sicrhau bod y swyddogaethau hyn yn cael eu cyflawni'n effeithlon ac yn effeithiol.

Mae gan y Comisiynwyr ddyletswyddau hefyd o dan God Ymarfer Dioddefwyr[1]; rhaid iddynt sicrhau bod gan ddioddefwyr fynediad at Gyfiawnder Adferol ar bob cam o'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol. Rhaid i bob Comisiynydd benderfynu ar y ffordd orau o ddarparu gwasanaethau Cyfiawnder Adferol yn seiliedig ar ddioddefwyr. Mae Cwmnïau Adsefydlu Cymunedol yn gyfrifol o dan eu Model Gweithredu Targed gyda'r Weinyddiaeth Gyfiawnder am ddarparu Cyfiawnder Adferol sy'n seiliedig ar droseddwyr; mae'r Cytundeb Gwasanaethau o dan y model hwn wedi'i gynllunio i ganiatáu i Gomisiynwyr gomisiynu gwasanaethau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr yn uniongyrchol gan Gwmnïau Adsefydlu Cymunedol heb orfod caffael y gwasanaethau hyn drwy broses dendro cystadleuaeth agored arferol.

[1] Cyhoeddir y Cod yma gan yr Ysgrifennydd Gwladol dros Gyfiawnder o dan adran 32 o Ddeddf Trais yn y Cartref, Trosedd a Dioddefwyr 2004. Mae'n gweithredu darpariaethau perthnasol Cyfarwyddeb yr UE 2012/29/UE gan sefydlu safonau gofynnol ar hawliau, cefnogaeth ac amddiffyn dioddefwyr troseddau; Cyfarwyddeb 2011/92/UE sy’n brwydro yn erbyn cam-drin rhywiol ac ecsploetio plant yn rhywiol; a Chyfarwyddeb 2011/36/UE sy’n atal ac yn brwydro yn erbyn masnachu mewn bodau dynol.

# Cynllun yr Heddlu a Throseddu

Mae gofyn i bob Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu osod Cynllun yr Heddlu a Throseddu, gan adlewyrchu'r cyfleoedd allweddol, y peryglon a’r heriau i blismona a nodi eu blaenoriaethau ar gyfer y cyfnod swydd. Dyma flaenoriaethau Cynllun yr Heddlu a Throseddu 2021 - 2025:

- Mae dioddefwyr yn cael eu cefnogi
- Mae niwed yn cael ei atal
- Mae ein system gyfiawnder yn fwy effeithiol

Yn cefnogi'r blaenoriaethau hyn mae nifer o werthoedd allweddol:

- Cydweithio
- Bod yn atebol
- Bod yn gynaliadwy
- Ymgysylltu'n eang

## *Protocol Plismona*

Yn cyd-fynd â'r dyletswyddau uchod mae Gorchymyn Protocol Plismona 2011, a gyhoeddwyd gan yr Ysgrifennydd Gwladol gan bennu rolau a chyfrifoldebau pob CHTh, Prif Gwnstabl ac eraill.

Mae Swyddfa'r CHTh yn monitro cydymffurfedd yn erbyn y Protocol Plismona. Fel rhan o hyn, mae'r tîm Comisiynu yn adrodd yn erbyn nifer o fesurau allweddol gan gynnwys:

- Canran y gwasanaethau a gomisiynir sy'n dangos data canlyniadau cadarnhaol ar gyfer defnyddwyr gwasanaethau
- Nifer y cwynion a dderbyniwyd gan y CHTh ynghylch darpariaeth gwasanaethau a gomisiynwyd
- Dylai'r broses dendro gynnwys ystyriaeth o hygyrchedd darpariaeth gwasanaeth
- Dylid cynnwys gofyniad i godi ymwybyddiaeth/cynhyrchu gwybodaeth cyhoeddusrwydd ym mhob contract
- Sicrhau darpariaeth gwasanaethau i ddioddefwyr yn unol â thelerau ac amodau grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder
- Canran y gwasanaethau sy'n derbyn cyfarfodydd adolygu chwarterol
- Canran yr adroddiadau perfformiad a dderbyniwyd o fewn 10 diwrnod gwaith i ddiwedd y chwarter
- Nifer yr ymweliadau safle gan wasanaethau a gomisiynir

- Cyfarfodydd Bwrdd Cynghori Chwarterol i'w cynnal

Cynhyrchir adroddiad ar y mesurau hyn bob chwarter i'r Panel Heddlu a Throseddu.

## Dull o Gomisiynu

Dylai comisiynu ganolbwyntio ar sicrhau'r canlyniadau gorau, am y gwerth gorau a sicrhau adolygiad parhaus i weld os ydy gwasanaethau'n llwyddo i fynd i'r afael ag anghenion dioddefwyr neu droseddwyr.

Nid yw comisiynu llwyddiannus yn seiliedig ar benderfyniadau cyllidebol yn unig ond dylai gynnwys ystod lawn o waith partneriaeth ac asesu'r ystod o wasanaethau sydd ar gael i sicrhau canlyniadau gwell yn ogystal â sicrhau gwerth am arian. Dylai mesur llwyddiant fod yn seiliedig nid ar nifer y defnyddwyr sy'n derbyn gwasanaeth penodol ond ar ganlyniadau gwell yn seiliedig ar allu dioddefwyr neu droseddwyr i ddychwelyd i ansawdd bywyd blaenorol neu well.

Mae'r diagram isod yn amlinellu’r cylch comisiynu, sy'n canolbwyntio ar bedwar cam:

- Deall– cydnabod y canlyniadau sydd i'w cyflawni a’r anghenion lleol
- Cynllunio – mapio ac ystyried sut gellir mynd i'r afael â'r anghenion yn effeithiol, yn effeithlon ac yn gynaliadwy
- Gwneud - comisiynu atebol, agored a thryloyw
- Adolygu – sicrhau bod gwasanaethau’n atebol drwy fonitro’r ddarpariaeth yn barhaus yn erbyn canlyniadau y cytunwyd arnynt




Wrth ddehongli a defnyddio'r cylch hwn, mae'n bwysig deall:

- nad yw'r cylch byth ar gau a gall llwyddiant neu fethiant ddylanwadu arno;
- nid yw'r model yn rhagnodol ynghylch hyd yr amser i sicrhau llwyddiant; gallai hyn gymryd amser;
- mae camau'r cylch yn ddeinamig yn hytrach nac yn sefydlog;
- bwriad y cylch comisiynu yw bod yn broses o welliant parhaus gyda'r hyn a ddysgir ac adborth o bob cylch cyfan yn bwydo i mewn i wella'r nesaf.

Mae'r Llywodraeth yn gweithio i wella comisiynu er mwyn sicrhau y gwasanaethau gorau posib sy'n rhoi gwerth am arian. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi amlinellu wyth egwyddor comisiynu da a ddylai arwain at well canlyniadau cyhoeddus i unigolion a chymunedau:

1. Deall anghenion defnyddwyr a chymunedau;
2. Ymgynghori â sefydliadau darparu posibl, gan gynnwys y rheini o'r trydydd sector ac arbenigwyr lleol, ymhell cyn comisiynu gwasanaethau newydd;
3. Rhoi canlyniadau i ddefnyddwyr wrth wraidd y broses gynllunio strategol;

4. Mapio’r ystod ymarferol lawnaf o ddarparwyr gyda golwg ar ddeall y cyfraniad y gallent ei wneud i gyflawni’r canlyniadau hynny;
5. Ystyried buddsoddi yng nghapasiti sylfaen y darparwyr, yn enwedig y rhai sy’n gweithio gyda grwpiau anodd eu cyrraedd;
6. Sicrhau bod prosesau contractio yn dryloyw ac yn deg, gan hwyluso cyfranogiad yr ystod ehangaf o gyflenwyr, gan gynnwys ystyried is-gontractio ac adeiladu consortia, lle bod hynny'n briodol;
7. Sicrhau contractau tymor hir a rhannu risg, lle bynnag y bod hynny'n briodol, fel ffyrdd o sicrhau effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd; a
8. Cheisio adborth gan ddefnyddwyr y gwasanaeth, cymunedau a darparwyr er mwyn adolygu effeithiolrwydd y broses gomisiynu wrth ddiwallu anghenion lleol.

*Successful Commissioning Toolkit y Swyddfa Archwilio Genedlaethol.*

## Egwyddorion Comisiynu

Mae'r Comisiynydd yn cyhoeddi fframwaith gomisiynu blynyddol sy’n cyd-fynd yn uniongyrchol â Chynllun Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys 2021-2025 gyda'r holl fwriadau comisiynu, ynghyd â'r gyllideb, yn gysylltiedig â'r blaenoriaethau strategol sydd oddi mewn.

Mae'r Fframwaith Comisiynu yn amlinellu'r egwyddorion allweddol, y llwybrau comisiynu posibl, y trefniadau monitro ar gyfer gwasanaethau a chanlyniadau comisiwn, adrodd, rheoli risg a dyrannu cyllideb.

Mae'r blaenoriaethau a nodir yn y Cynllun yn llywio penderfyniadau'r CHTh ynghylch pa gyllid sydd ar gael i'r heddlu a phartneriaid i sicrhau gostyngiadau mewn trosedd ac anrhefn. Mae’r Fframwaith Comisiynu yn cefnogi bwriad y CHTh i alinio’r gyllideb gomisiynu â’r themâu allweddol a’r blaenoriaethau strategol hynny.

Dyma flaenoriaethau'r Cynllun Heddlu a Throsedd a'r fframwaith gomisiynu:

1) Mae dioddefwyr yn cael eu cefnogi
2) Mae niwed yn cael ei atal
3) Mae ein system gyfiawnder yn fwy effeithiol

## *Prif Egwyddorion*

Dylai fod ffocws ar werth am arian, uchafu adnoddau a sicrhau bod effaith yr arian sy'n cael ei wario'n cael ei fesur a'r gwerth yn cael ei asesu.

Gweithredir arfer gorau mewn perthynas â chaffael. Mae CHTh yn disgwyl i'r holl brosesau caffael ddilyn arfer gorau a bod yn hygyrch ar gyfer unrhyw ddarparwr, gan gynnwys y sector gwirfoddol. Bydd yr holl reoliadau a deddfwriaethau perthnasol hefyd yn berthnasol, gan gynnwys Deddf Cydraddoldebau 2010, sy'n cynnwys Dyletswydd Cydraddoldeb y Sector Cyhoeddus.

Mae'r Cyfarwyddwr Comisiynu wedi llunio proses gomisiynu dryloyw a hygyrch. Comisiynir gwasanaethau gwerth is drwy Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (SCHTh), gan alluogi proses dendro syml sy'n ystyriol o ddefnyddwyr sy'n lleihau'r baich ar y rhai sy'n cyflwyno cynigion. Mae CHTh wedi ymrwymo i sicrhau bod gwasanaethau'n cynrychioli'r safon a'r gwerth gorau am arian. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r broses werthuso'n canolbwyntio'n gryf ar safon yn ogystal â chost.

Ym mhob penderfyniad dyfarnu, byddwn yn ystyried effaith dyfarnu'r arian ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg. Cynhwysir hyn mewn prosesau tendro a'r matrics sgorio ar gyfer dyfarniadau grant.

Archwilir i gyfleoedd ar gyfer comisiynu ar y cyd lle bynnag y bo modd er mwyn sicrhau bod y manteision a gwerth ychwanegol partneriaethau'n cael eu hystyried yn llawn.

Lle bynnag y bo'n ddichonadwy, dylid anelu i ddyfarnu cytundebau tymor canolig neu hir er mwyn sicrhau cynaliadwyedd darpariaeth gwasanaeth ac osgoi'r ansefydlogrwydd a ddaw gyda chylchoedd ariannu blynyddol neu dymor byr.

## *Llwybrau comisiynu*

*Comisiynu uniongyrchol*

Er mwyn sicrhau bod y CHTh yn caffael gwasanaethau sy'n cyfrannu at gyflawni'r blaenoriaethau yn y Cynllun Heddlu a Throseddu, bydd y CHTh yn tendro'n uniongyrchol neu'n contractio gyda darparwr. Cyflawnir hyn drwy gystadleuaeth agored lle gwahoddir cynigwyr i dendro am wasanaethau sy'n bodloni'r amcanion a'r canlyniadau gofynnol o fewn manyleb gwasanaeth benodol.

*Cyd-gomisiynu*
Lle bo'n briodol, bydd y CHTh yn gweithio gyda phartneriaid a darparwyr i sicrhau'r canlyniadau mwyaf effeithiol a chost-effeithlon o ddarparu gwasanaethau. Gellir cyflawni hyn trwy strwythurau comisiynu sefydledig a rhai sy'n dod i'r amlwg a phartneriaethau gyda rhanddeiliaid allweddol.

*Grantiau*
Bydd y CHTh yn darparu rhaglenni grantiau amrywiol. Bydd rhai yn agored i bartneriaid i gefnogi eu gwaith ar amcanion a rennir ar draws ffiniau sefydliadol a daearyddol. Bydd eraill yn agored i elusennau, mudiadau gwirfoddol a grwpiau cymunedol, gyda'r nod o wella cymunedau lleol a bywydau'r bobl sy'n byw ynddynt.

Bydd grantiau'n cael eu dyfarnu yn seiliedig ar feini prawf penodol sy'n cynnwys ystyriaeth o'r budd cymunedol, yr angen sydd wedi'i dystiolaethu am y prosiect, hygyrchedd, sut mae'r prosiect yn bodloni'r blaenoriaethau a gwerth am arian.

Mae’r broses Grant, ynghyd â’r matrics sgorio, wedi’u cynnwys er gwybodaeth yn Atodiad 1.

*Arall*
Yn ogystal â hyn, bydd cyfleoedd trwy gydol y flwyddyn i wneud cais am wahanol gronfeydd cystadleuol gan y Swyddfa Gartref a’r Weinyddiaeth Gyfiawnder. Bydd cofrestr cyfleoedd yn cael ei sefydlu gan y Rheolwr Ariannu Allanol er mwyn casglu syniadau posibl am brosiectau a nodi meysydd lle mae tystiolaeth o angen. Bydd hyn yn sicrhau ein bod yn manteisio i'r eithaf ar bob cyfle i ddatblygu gwasanaethau lle bo'n briodol.


Ar gyfer pob mecanwaith ariannu bydd y CHTh yn dal contractau/cytundebau lefel gwasanaeth gyda'r sefydliadau llwyddiannus sy'n nodi manylion y canlyniadau i'w cyflawni a'r gwerth.

## Cyllideb Gomisiynu

Mae cyfanswm y gyllideb gomisiynu yn cynnwys grant gan y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MOJ) at ddiben comisiynu gwasanaethau i ddioddefwyr ynghyd â dyraniad o gyllid craidd y CHTh. Dyrennir grant dioddefwyr y Weinyddiaeth Gyfiawnder yn unol â fformiwla ariannu ar sail poblogaeth. Ei ddiben yw ariannu gwasanaethau pwynt cyswllt cyntaf i ddioddefwyr, gwasanaethau trais rhywiol, trais domestig a cham-drin plant yn rhywiol yn ogystal â gwasanaethau i gefnogi dioddefwyr mathau eraill o droseddau yn ôl yr angen.

Y gyllideb Gomisiynu ar gyfer 2021/22 oedd £3,022,430, gan gynnwys costau staff yn ychwanegol at gostau darparu gwasanaethau uniongyrchol. Mae hyn yn cynnwys grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder, gwerth £605,586. Yn ystod y flwyddyn sicrhaodd y CHTh gyllid ychwanegol gwerth £629,093 i gefnogi dioddefwyr trais yn erbyn menywod, cam-drin domestig a thrais rhywiol. Mae hyn yn cynnwys niferoedd cynyddol o Gynghorwyr Trais Domestig a Rhywiol Annibynnol yn ogystal â chapasiti pellach ar gyfer gwasanaethau cymunedol arbenigol.

Mae'r graff isod yn dangos canran y gyllideb graidd a ddyrannwyd i feysydd gweithgaredd:


2021/22 Commissioned Service Budget
£679,566
£629,093
£20,000
£290,000
£130,000
£100,000
£253,210
£629,093
Services to support victims of crime
Additional MOJ funding for VAWDASV services
Victim Satisfaction Surveying
Substance misuse support services
Services to support victims of anti-social behaviour
Prevention of Youth Offending
Offender Diversionary Scheme
Domestic Abuse and Sexual Violence services

Mae’r tabl isod yn darparu mwy o wybodaeth am y gwariant comisiynu a llwybr y ddarpariaeth:

| **Maes comisiynu** | **Blaenoriaeth Panel yr Heddlu a Throseddu** | **Mecanwaith ariannu** | **Swm 2021/22 (£)** | **Sylw** |
|---|---|---|---|---|
| Camddefnyddio Sylweddau | 1, 2 | Comisiynu ar y cyd | 290,000 | Darparu gwasanaethau trin camddefnyddio sylweddau i’r rhai sy’n dod i mewn i’r system cyfiawnder troseddol |
| Ymddygiad Gwrthgymdeithasol | 1, 2 | Uniongyrchol | 130,000 | Darparu gwasanaethau ar gyfer cymorth, cyfeirio, a lleihau ymddygiad gwrthgymdeithasol |
| Atal Troseddau Ieuenctid | 1, 2 | Grantiau | 180,122 | Adnabod y rhai sydd mewn perygl o droseddu a darparu pecynnau cymorth pwrpasol |
| Gwasanaeth cyfeirio dioddefwyr | 1, 2 | Uniongyrchol | 237,579 | Darparu gwasanaeth cyfeirio dioddefwyr i bob dioddefwr trosedd sy'n byw yn Nyfed-Powys |
| Boddhad Dioddefwyr | 3 | Uniongyrchol | 20,000 | Arolygon ffôn dioddefwyr cam-drin domestig yn unol â mandad y Swyddfa Gartref |
| Trais yn y Cartref | 1, 2 | Comisiynu ar y Cyd | 200,000 | • Gwasanaeth yn darparu cefnogaeth i ddioddefwyr cam-drin domestig risg uchel |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| Cam-drin Rhywiol | 1, 2 | Uniongyrchol | 136,987 | • Darparu mynediad 24 awr at gymorth mewn argyfwng i ddioddefwyr ymosodiad rhywiol gyda gofal clinigol a fforensig arbenigol a chefnogaeth barhaus<br>• Darparu cymorth i ddioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol<br>• Darpariaeth Cynghorwyr Annibynnol ar Ymosodiadau Rhywiol peripatetig ar draws ardaloedd gwledig |
| Ymgodiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer gwasanaethau Trais yn erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) | 1,2 | Grantiau | 629,093 | • Mwy o ddarpariaeth Ymgynghorwr Trais Domestig Annibynnol<br>• Ymgodiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer Cynghorwyr Annibynnol ar Ymosodiadau Rhywiol<br>Capasiti ymgodiad ar gyfer gwasanaethau cymunedol |
| Plant sydd mewn Perygl o Gamfanteisio Rhywiol | 1, 2 | Uniongyrchol | 80,000 | Darpariaeth cymorth ôl-drafod a chyfryngu annibynnol i blant a phobl ifanc sy’n cael eu cofnodi fel rhai sydd ar goll. |
| Cynllun dargyfeiriol i droseddwyr | 1, 2, 3 | Uniongyrchol | 253,210 | Darparu gwasanaeth cymorth brysbennu a dargyfeirio ar gyfer troseddwyr lefel isel |

## *Proses gaffael*

Mae'r tîm Comisiynu wedi llunio canllaw syml i reoliadau caffael. Mae hwn yn cynnwys canllawiau ynghylch a ddylai'r broses fod yn broses gaffael neu grant, trothwyon, awdurdodi, rheolau llywodraethu ac eithrio yn unol â'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol.

Mae adran Gaffael yr Heddlu yn cynnal holiadur gallu cyflenwyr fel rhan o’r diwydrwydd dyladwy yn ystod unrhyw broses dendro ffurfiol. Mae hyn yn cynnwys rhai seiliau dros waharddiad lle cafwyd darparwyr yn euog o gynllwynio, llygredd, twyll ac ati. Mae hefyd yn sicrhau bod ganddynt y lefelau gofynnol o yswiriant, gwiriadau ariannol Dun & Bradstreet, cydymffurfiaeth Iechyd a Diogelwch, cydymffurfiaeth â chyfreithiau, polisïau a gweithdrefnau cymwys eraill, hanes contract blaenorol a thystiolaeth o gyflawni. Bydd yr adran Gyllid hefyd yn cynnal asesiadau twyll ac asesiadau risg eraill wrth sefydlu cyflenwyr newydd.

## *Contractau*

Yn dilyn dyfarnu tendr, mae contract yn ei le gyda phob gwasanaeth (yn seiliedig ar y telerau ac amodau a ddefnyddir gan Gaffael Heddlu Dyfed-Powys), sy'n cynnwys nod ac amcanion y gwasanaeth, dangosyddion perfformiad allweddol a threfniadau adrodd perfformiad/ariannol. Darperir dyfyniad isod:

> *Bydd disgwyl i'r Darparwr weithio gyda'r Comisiynydd drwy gydol cyfnod y contract i ddatblygu ymhellach fframwaith canlyniadau mesuradwy ar gyfer y Gwasanaethau. Fel isafswm, bydd pob un o’r DPAau canlynol yn cael eu mesur yn chwarterol……..*
>
> *Bydd y Darparwr yn sicrhau bod ganddo systemau a gweithdrefnau priodol yn eu lle er mwyn casglu ac adrodd ar gydymffurfiaeth â DPA yn ôl yr angen.*
>
> *O fewn 10 diwrnod gwaith ar ôl diwedd pob Chwarter, bydd y Darparwr yn cyflwyno adroddiad rheoli i’r Comisiynydd yn manylu ar berfformiad mewn perthynas â phob DPA yn ystod y Chwarter hwnnw. Bydd adroddiadau yn y fformat a gynigir gan y Darparwr ac a gymeradwyir gan y Comisiynydd a byddant yn cynnwys naratif i amlygu unrhyw faterion perfformiad, ynghyd â chamau y mae'r Darparwr yn bwriadu eu cymryd i osgoi unrhyw broblemau rhag codi eto. Dylai'r adroddiad hefyd gynnwys gwybodaeth berthnasol arall*

*am berfformiad ac unrhyw faterion neu feysydd perthnasol y mae angen eu trafod ymhellach.*

*Ymgymerir â monitro trwy gyfarfodydd/ymweliadau chwarterol. Bydd yr adroddiadau chwarterol a gyflwynir gan y Darparwr yn sail i drafodaeth yn y cyfarfodydd hyn. Bydd y cyfarfod yn rhoi cyfle i'r ddwy ochr godi unrhyw faterion i'w trafod neu i'w hegluro.*

*Bydd ymweliadau monitro yn galluogi'r Comisiynydd i gael profiad o'r gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu ac i adolygu profiadau a lefelau boddhad defnyddwyr gwasanaeth.*

Fel rhan o amodau'r contract hyn, mae darparwyr yn cyflwyno adroddiadau chwarterol. Mae'r rhain yn cynnwys data perfformiad, astudiaethau achos, unrhyw gwynion neu ganmoliaeth a dderbyniwyd, hyfforddiant, diweddariadau staff/recriwtio, unrhyw faterion i'w huwchgyfeirio at gomisiynwyr, ynghyd â diweddariad naratif ar gynnydd yn ystod y chwarter.

Mae data a ddarperir o fewn yr adroddiadau hyn yn cael ei drosglwyddo i ddangosfwrdd perfformiad sydd gan y tîm comisiynu. Mae hyn yn darparu asesiad parhaus o berfformiad dros amser ac yn erbyn dangosyddion allweddol.

Cynhelir cyfarfodydd adolygu contractau bob chwarter gyda phob darparwr a, lle cânt eu comisiynu ar y cyd, gyda chynrychiolwyr o bartïon comisiynu eraill.

Yn unol â'r cytundebau contract, mae'n ofynnol i ddarparwyr gyflwyno datganiadau ariannol diwedd blwyddyn yn dangos gwariant alldro gwirioneddol o fewn 30 diwrnod gwaith yn dilyn 31 Mawrth bob blwyddyn.

## Llywodraethu

Yn ôl Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 mae'n rhaid i'r Comisiynydd benderfynu ar egwyddorion eu dull comisiynu, y canlyniadau dymunol, y gofynion monitro ac adrodd ar gyfer gwasanaethau a gomisiynir a'r cyllidebau dan sylw – mae hyn wedi'i amlinellu yn ein Fframwaith Comisiynu fel y disgrifiwyd yn gynharach.

Mae dau faes y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol yn arbennig o berthnasol; yn gyntaf y canllawiau ar wneud penderfyniadau ac yn ail y rheoliadau caffael. Mae'r holl benderfyniadau a wneir gan y Comisiynydd yn cael eu cofnodi mewn log penderfyniadau, eu cyhoeddi ar y wefan a'u hadrodd i'r Panel yr Heddlu a Throseddu yn unol â hynny.

## *Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu*

Mae'r Comisiynydd wedi sefydlu Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu, a'i rôl yw gweithredu fel y corff adolygu mewn perthynas â dyfarnu cyllid grant a thendro gwasanaethau. Mae eu rôl yn cynnwys sicrhau bod elw ar fuddsoddiad a gwerthuso effaith y gwasanaeth. Mae'r Bwrdd yn canolbwyntio ar graffu ar weithgarwch a dwyn darparwyr gwasanaethau i gyfrif.

Mae Cylch Gorchwyl y Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu yn cynnwys:

- darparu cyngor i Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu ar y Fframwaith Comisiynu a'r bwriadau comisiynu yn ei Gynllun Heddlu a Throseddu a'i Gynllun Cyflawni
- gwneud argymhellion am fuddsoddi a dadfuddsoddi sydd ei angen i gyflawni datblygiad gwasanaethau a blaenoriaethau cynllunio strategol
- ystyried amrywiaeth o opsiynau ar gyfer buddsoddi mewn gwasanaethau
- goruchwylio'r canlyniadau a'r trefniadau monitro ar gyfer darparu gwasanaethau yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throseddu a'r Cynllun Cyflawni, gan gynnwys fframweithiau monitro perfformiad effeithiol, targedau a strwythurau adrodd
- ystyried i'w cymeradwyo argymhellion a wnaed gan y Rheolwr Ariannu Allanol mewn perthynas â bidiau a dderbyniwyd i ddyraniadau cyllid amrywiol y Comisiynydd

Fel rhan o weithgarwch y Bwrdd, gofynnir i ddarparwyr fod yn bresennol fel mater o drefn i roi cyflwyniad i aelodau'r Bwrdd ynghylch darparu gwasanaethau unigol. Mae darparwyr hefyd yn cymryd rhan mewn trafodaethau ar bynciau penodol fel y profiad o gyflawni yn ystod pandemig Covid 19. Mae pob darparwr yn mynychu tua unwaith bob 2 flynedd i gyflwyno; fel rhan o hyn, mae'r Bwrdd yn cael trosolwg o'r gwasanaeth gan y tîm comisiynu, cyflwyniad gan y darparwr ac yna sesiwn holi ac ateb.

O ganlyniad i drafodaethau yn y Bwrdd Cynghori Chwarterol, mae'r tîm comisiynu wedi cynhyrchu dogfennau trosolwg un dudalen o bob gwasanaeth yn amlinellu diben y contract, darparwr, cost, hyd a deilliannau/canlyniadau allweddol y gwasanaethau. Mae'r rhain ar gael ar wefan SCHTh yma ar gyfer ymwybyddiaeth ehangach y cyhoedd o gyflawni yn erbyn buddsoddiad.

## *Monitro Gwasanaethau a Gomisiynir a Chanlyniadau*

Bwriad Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys yw comisiynu gwasanaethau sy'n gallu darparu ac arddangos canlyniadau sydd wedi'u diffinio'n glir. Cyfrifoldeb y CHTh, trwy Swyddfa Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu, fydd monitro cynnydd ar gyfer pob gweithgaredd a gomisiynir yn erbyn y canlyniadau arfaethedig.

Datblygir canlyniadau ar gyfer pob contract a ddyfernir yn seiliedig ar nodau ac amcanion y gwasanaeth. O dan y canlyniadau y cytunwyd arnynt mae amrywiaeth o ddangosyddion perfformiad a all gynnwys mesurau ansoddol a meintiol, mesurau adferol a mesurau talu yn ôl canlyniadau, i gyd yn seiliedig ar y contract gwasanaeth. Trafodir dangosyddion perfformiad gyda'r darparwr i sicrhau eu bod yn gyraeddadwy. Disgwylir i ddarparwyr weithio gyda'r Comisiynydd drwy gydol cyfnod y contract i ddatblygu ymhellach y fframwaith o ganlyniadau mesuradwy ar gyfer y gwasanaethau. Mae rhoi'r mesurau hyn ar waith yn galluogi'r CHTh i ddwyn y darparwr gwasanaeth i gyfrif am gyflawni'r contract yn llwyddiannus a monitro cynnydd drwy gydol oes y contract.

## *Adrodd*

Mae monitro ac adrodd deallus yn golygu y gallwn ymgysylltu â'n darparwyr gwasanaeth i sicrhau bod y wybodaeth a geisir yn realistig yn seiliedig ar ddiben/cyd-destun comisiynu a chwmpas ac amserlenni'r prosiect.

Yn sail i ddulliau monitro yw'r ffordd y caiff y wybodaeth ei defnyddio – p'un ai i ddeall effaith gyffredinol y gwasanaeth a gomisiynir, i ddatblygu a gwella arfer, i ddylanwadu ar bolisi cyhoeddus neu i baratoi ar gyfer comisiynu yn y dyfodol.

Bydd monitro gwasanaethau yn rhoi arf i'r CHTh ddeall llwyddiant a methiant, yr hyn sy'n gweithio a'r hyn nad yw'n gweithio a'r gwahaniaeth y mae'r gwasanaethau'n ei wneud.

Cynhelir cyfarfodydd monitro perfformiad chwarterol gyda'r holl ddarparwyr gwasanaethau. Gofynnir i bob darparwr gasglu a mesur dangosyddion perfformiad ar eu systemau eu hunain yn fewnol, gan sicrhau eu bod yn atebol ac yn rheoli eu monitro / adrodd eu hunain.

Darperir rhagor o wybodaeth yn yr adran Archwilio sy'n dilyn yn ddiweddarach yn y strategaeth hon.

### *Rheoli Risgiau*

Mae rhwymedigaethau darparwr gwasanaeth mewn perthynas â chyflogi staff, diogelu a deddfwriaeth berthnasol arall wedi'u diffinio'n glir yn nogfennau'r contract. Mae hyn yn cynnwys cymalau yn ymwneud ag indemniad a gofynion yswiriant.

Mae darparwyr gwasanaeth yn rheoli eu risg eu hunain trwy gydol cyfnod y contract ac yn diweddaru'r CHTh ar unrhyw faterion sy'n codi sy'n debygol o effeithio ar ganlyniad y contract. Mae hyn hefyd wedi'i ymgorffori yn yr ymarfer caffael gwreiddiol, lle mae'n ofynnol i gynigwyr nodi risgiau posibl a chynnig camau lliniaru.

Mae gan y Comisiynydd gyfrifoldeb statudol i gynrychioli llais y dioddefwyr. Byddai effaith peidio â chomisiynu gwasanaethau dioddefwyr felly yn torri'r cyfrifoldeb hwn ac yn effeithio'n negyddol ar lefelau hyder y cyhoedd a'r gwasanaethau a ddarperir. Yn yr un modd mae effaith peidio â sicrhau darpariaeth gwasanaethau i fynd i'r afael â phryderon diogelwch cymunedol ehangach yn debygol o gynyddu trosedd, anhrefn a throseddu ac effeithio'n negyddol ar ansawdd bywyd o fewn cymunedau a hyder y cyhoedd.

## Cynllun Archwilio Gwasanaethau a Gomisiynwyd

## Grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder

Mae telerau ac amodau grant y Weinyddiaeth Gyfiawnder (MOJ) yn ei gwneud yn ofynnol i fodloni nifer o feini prawf diwydrwydd dyladwy, ynghyd â chyflwyniadau data a chanlyniadau canol blwyddyn a diwedd blwyddyn gan y gwasanaethau sy'n derbyn cyllid. Mae'r gofynion ar gyfer defnyddio'r grant yn cynnwys:

- Darparu neu gomisiynu gwasanaethau cymorth ar gyfer:
  - dioddefwyr troseddau
  - aelodau'r teulu
  - dioddefwyr trais rhywiol
  - dioddefwyr trais yn y cartref
  - dioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol (CSA) neu ecsbloetio plant
- Meithrin capasiti a gallu darparwyr gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr trosedd ac aelodau o'r teulu (gan gynnwys darparwyr gwasanaethau cyfiawnder adferol) o'r sector Mentrau Gwirfoddol, Cymunedol a Chymdeithasol (VCSE)
- Talu unrhyw gostau cysylltiedig sy'n codi yn y broses o gomisiynu neu ddarparu gwasanaethau cymorth gyda'r grant
- Rhaid defnyddio elfen ymgodiad CSA y grant at y dibenion canlynol yn unig:
  - Darparu neu gomisiynu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol neu ecsploetio plant
  - Talu unrhyw gostau cysylltiedig sy'n codi yn y broses o ddarparu neu gomisiynu gwasanaethau o'r fath gyda'r grant; a
  - Meithrin capasiti a gallu darparwyr gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr cam-drin plant yn rhywiol ac ecsploetio plant o'r sector Mentrau Gwirfoddol, Cymunedol a Chymdeithasol
- Mae gwasanaethau yn ardal y CHTh yn bodloni gofynion y Gyfarwyddeb Dioddefwyr, gan sefydlu safonau gofynnol ar hawliau, cymorth ac amddiffyniad i ddioddefwyr troseddau:
  - Ddiwallu anghenion cymorth dioddefwyr neu, os oes galw, aelodau'r teulu
  - Gweithredu er budd y dioddefwyr neu aelodau'r teulu a gefnogir
  - Bod yn rhad ac am ddim
  - Bod yn gyfrinachol
  - Bod yn anwahaniaethol (gan gynnwys bod ar gael i bawb waeth beth yw eu statws preswylio, cenedligrwydd dinasyddiaeth)

    - Bod ar gael p'un ai yw trosedd wedi'i hadrodd i'r heddlu ai peidio
    - Bod ar gael cyn, yn ystod ac am amser priodol ar ôl unrhyw ymchwiliad neu achos troseddol
    - Rhaid i wasanaethau cymorth a ddarperir neu a gomisiynir gyda'r Grant gynnwys gwasanaeth atgyfeirio
- Sicrhau bod trefniadau un pwynt cyswllt (SPOC) digonol yn cael eu rhoi ar waith yn eu hardal heddlu fel bod dioddefwyr digwyddiadau troseddau mawr, ac aelodau o'r teulu, sy'n byw yn eu hardal heddlu yn gallu cael mynediad rhwydd a chyflym at wasanaethau cymorth a ariennir gyda'r grant.
- Mae'r Gwasanaethau Cymorth a ddarperir neu a gomisiynir gyda'r grant yn cael cyhoeddusrwydd eang mewn amrywiaeth o gyfryngau a lleoliadau.
- Rhaid i'r derbynnydd nodi'r gwasanaethau dioddefwyr sydd i'w comisiynu neu eu darparu, gan gynnwys gwasanaethau atgyfeirio, mewn unrhyw Gynllun Heddlu a Throseddu ac Adroddiad Blynyddol y mae'n eu cyhoeddi/cynhyrchu
- Rhaid i'r grant gael ei archwilio fel rhan o raglen archwilio flynyddol y derbynnydd. Rhaid archwilio cyfrifon a rhaid nodi cyllid o'r grant yn glir ar wahân
- Mae unrhyw asedau cyfalaf sy'n costio mwy na £1000 sydd wedi'u prynu yn cael eu cynnal a'u cofrestru
- Rhaid i'r Derbynnydd sicrhau bod ei holl aelodau staff yn cydymffurfio, a chymryd pob cam rhesymol i sicrhau bod unrhyw berson arall sy'n ymwneud â defnyddio'r grant yn cydymffurfio â'r holl gyfreithiau cymwys sydd mewn grym yng Nghymru a Lloegr.
- Dilyn canllawiau'r llywodraeth ar gyllid grant anghyffredin COVID-19 i Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu a dim ond rhwng dyddiadau penodol y defnyddir gwariant

Mae'n ofynnol i'r sefydliadau sy'n derbyn cyllid y Weinyddiaeth Gyfiawnder drwy'r CHTh ddarparu mesuriadau canlyniad ar y meysydd canlynol:
- Nifer y dioddefwyr a atgyfeiriwyd
- Nifer y dioddefwyr a gefnogwyd
- Cyfartaledd yr amser a dreuliwyd gan ddioddefwyr ar y rhestr aros
- Cymwys: Dim cyswllt
- Cymwys: Wedi ymddieithrio
- Demograffeg**:**

- Rhywedd
- Oed
- Cyfeiriadedd rhywiol
- Ethnigrwydd
- Anabledd

## *Gwasanaethau archwilio*

Fel yr amlinellwyd yn y strategaeth hon, mae prosesau niferus ar waith sy'n monitro'r gwerth a'r canlyniadau a ddarperir gan wasanaethau a ariennir gan y CHTh. I ategu hyn, cynhelir adolygiad bwrdd gwaith bob blwyddyn ar gyfer pob gwasanaeth a gomisiynir. Mae hyn yn cynnwys:

- Adroddiadau perfformiad – yn cael eu derbyn bob chwarter mewn modd amserol
- Cyfarfodydd contract – yn cael eu cynnal yn chwarterol a chofnodion ar gael. Camau gweithredu wedi'u diweddaru ac wedi'u cwblhau
- Cynnydd cadarnhaol wedi'i ddangos ar ddangosyddion perfformiad allweddol
- Gwerth am arian
- Adroddiadau cyllid – a oes unrhyw bryderon ynghylch y sefydliad darparu? A ddarperir anfonebau mewn modd amserol? A ddarperir datganiadau ariannol diwedd blwyddyn?
- Gweithdrefn gwyno yn ei lle ac ar gael i'r cyhoedd
- Lles staff – (bydd SCHTh yn mynychu 1 cyfarfod tîm y flwyddyn i gwrdd â staff a thrafod unrhyw bryderon)
- Fetio – mae gan yr holl staff gofynnol gymeradwyaeth fetio gyfredol
- Polisïau mewn lle yn unol â gofynion y contract
- Trefniadau prosesu data neu rannu gwybodaeth yn eu lle lle bo angen
- Darpariaeth y Gymraeg
- Gwirfoddolwyr – a ydynt yn cael eu defnyddio i ddarparu gwasanaethau ac, os felly, ydy'r polisïau cywir yn eu lle?

Cynhelir awdit manylach ar gyfer y gwasanaethau hynny lle mae contractau ar fin dod i ben, er mwyn llywio cynlluniau ailgomisiynu. Mae'r rhain wedi'u hamserlennu yn unol â therfynau amser diwedd contract. Mae hyn yn cynnwys adolygiad o'r canlynol yn ogystal â'r wybodaeth adolygiad blynyddol:

- Cynllun parhad busnes
- Sicrwydd Ansawdd Mewnol

- Arolygiadau a chanlyniadau
- Disgrifiadau swyddi a pholisi recriwtio
- Cynllun hyfforddi a log hyfforddi staff
- Ceisiadau / gweithgaredd Rhyddid Diddordeb ac ati
- Diogelu
- Adroddiadau digwyddiadau
- Mapiau partneriaeth / rhanddeiliaid / cynlluniau ymgysylltu
- Cynllun cyfathrebu
- Tystiolaeth o ymgysylltu â defnyddwyr gwasanaeth
- Sampl ar hap o ffeiliau defnyddwyr gwasanaeth
- Cyfweliad â Defnyddwyr Gwasanaeth / adborth trwy'r Fforwm Ymgysylltu â Dioddefwyr

## Cyfathrebu

Mae'r tîm Comisiynu yn darparu gwybodaeth yn rheolaidd i'r cyhoedd a phartneriaid trwy ddatganiadau i'r wasg, cyfryngau cymdeithasol ac erthyglau mewn cyhoeddiadau cenedlaethol. Yn ogystal â hyn, mae gwefan y CHTh yn cynnwys adran ar wasanaethau sydd ar gael i’r gymuned yma. Mae hwn yn rhoi disgrifiad o bob gwasanaeth ynghyd â manylion cyswllt. Mae'r dudalen hon hefyd yn cynnwys dogfen drosolwg sy'n dangos gwybodaeth am gontractau, ystadegau allweddol a chanlyniadau a ddarperir gan bob un o'n gwasanaethau a gomisiynir.

Mae copi caled o daflen gwasanaethau hefyd wedi'i chynhyrchu ac fe'i defnyddir ym mhob digwyddiad cymunedol lle mae’r CHTh/SCHTh yn bresennol.

## Asesiad o Anghenion ac Adolygiad o Wasanaethau

Ym mis Ionawr 2019 comisiynodd y CHTh Asesiad o Anghenion o ddioddefwyr a phobl fregus. Mae’r Crynodeb Gweithredol o hwn ynghlwm yn atodiad 2. Mae Atodiad 3 yn cynnwys trosolwg o’r argymhellion allweddol sy’n deillio o’r asesiad, ynghyd ag ymateb y CHTh a’r camau gweithredu gofynnol. Mae hwn wedi'i ddiweddaru ymhellach gyda datganiad sefyllfa ar gyfer y sefyllfa ddiweddaraf.

Mae nifer o ofynion ar gyfer gweithredu parhaus yn deillio o'r asesiad o anghenion, a amlinellir isod:

- Ymgysylltu parhaus â Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus
- Cyfleoedd datblygu ar gyfer comisiynu ar y cyd gyda phartneriaid yn arbennig y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Gwasanaeth dioddefwyr sy'n blant
- Adolygiad parhaus o fanteision busnes buddsoddi yn y tîm twyll a throseddau economaidd
- Goruchwylio cynnydd y prosiect trosedd o'r dechrau i'r diwedd
- Canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau Cyfiawnder Adferol a rhannu gwybodaeth
- Cynnydd parhaus o ran darparu gwasanaethau cam-drin rhywiol yn rhanbarthol a lobïo am gyllid ychwanegol ar gyfer cwnsela
- Buddsoddiad parhaus mewn ymyrraeth gynnar a gwaith atal gan gynnwys sylfaen dystiolaeth o fuddsoddiad mewn darpariaeth Troseddwyr Ifanc

Ym mis Tachwedd 2019 cynhaliwyd adolygiad annibynnol o Wasanaeth Dioddefwyr a Thystion Goleudy yn Nyfed-Powys. Mae Atodiad 4 yn cynnwys yr argymhellion allweddol, gydag ymateb gan Heddlu Dyfed-Powys a sylwadau pellach wedi'u hychwanegu o safbwynt y CHTh.

Unwaith eto, mae'r gwaith hwn yn gadael gwaddol o faterion y bydd angen gweithredu a monitro parhaus arnynt, a grynhoir isod:

- Methodoleg cyswllt Goleudy i barhau i gael ei hadolygu, i'w drafod mewn cyfarfodydd rheoli contractau chwarterol
- Angen trafodaethau tymor hwy i fynd i'r afael â lliniaru cyfraddau trosiant uchel
- Gweithredu Cyfiawnder Adferol fel blaenoriaeth o dan y gweithgor ar gyfer comisiynu ar y cyd rhwng y Comisiynwyr a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Bydd defnyddio gwirfoddolwyr ar gyfer darparu gwasanaethau yn rhan o archwiliad blynyddol o wasanaethau a gomisiynir
- Cynlluniau hyfforddi i'w hystyried fel rhan o gynlluniau archwilio blynyddol
- Gwybodaeth reoli Goleudy i fod yn rhan o drafodaethau parhaus ynghylch system rheoli cofnodion newydd
- Nifer o faterion a fydd yn eistedd o dan is-grŵp Dioddefwyr a Thystion fel eitemau sefydlog ar yr agenda, gan gynnwys mesurau rheoli perfformiad a boddhad dioddefwyr /adborth

- Cyhoeddusrwydd a marchnata i fod yn ffocws parhaus i dimau cyfathrebu'r Heddlu a SCHTh

## *Atodiad 1: Proses ar gyfer ceisiadau am gyllid grant i'r Comisiynydd*

**O Ebrill 2020 ymlaen**

| Swm | Proses ymgeisio | Angen awdurdodiad gan | Ystyriaethau wedi'u bodloni | Telerau ac Amodau | Monitro – perfformiad | Monitro - ariannol |
|---|---|---|---|---|---|---|
| Llai na £500 | 1. Profforma wedi'i chwblhau - Swyddogion ymgysylltu neu'r Heddlu<br>2. Sicrhau goruchwyliaeth gan y Prif Swyddog priodol i'w gymeradwyo yn unol â pholisi yr Heddlu (ar gyfer ceisiadau'r Heddlu yn unig)<br>3. Cyflwyno i dîm Comisiynu a Grantiau<br>4. Log y tîm comisiynu ar daenlen<br>5. Mae'r rheolwr ariannu allanol yn dyrannu cyllideb yn seiliedig ar flaenoriaethau a meini prawf<br>6. Tîm Comisiynu a Grantiau i anfon Ffurflen derbyn rhoddion i'r sefydliad i'w gwblhau<br>7. Cwblhau'r templed log penderfyniad a chyfieithu | CHTh – i'w gymeradwyo trwy adroddiadau i Dîm Gweithredol SCHTh bob pythefnos | Mae profforma yn cadarnhau nad oes unrhyw wrthdaro â Chynllun yr Heddlu a Throseddu, dim gwrthdaro buddiannau, dim difrod i enw da ac ati. | Rhodd yn unig | Rhoddir cyhoeddusrwydd i roddion ar y wefan trwy logiau penderfyniad | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | cysylltiedig, uwchlwytho i wefan ac ati (gweler y polisi log penderfyniad)<br>8. Tîm comisiynu yn llenwi ffurflen BACS ffurflen BACS – i'w llofnodi gan y Cyfarwyddwr Comisiynu (CC) | | | | | |
| £500 hyd at £1,500<br><br>Ceisiadau mewnol ac allanol | 1. Cwblhau profforma - Swyddogion Ymgysylltu neu'r Heddlu<br>2. Sicrhau goruchwyliaeth gan y Prif Swyddog priodol i'w gymeradwyo yn unol â pholisi'r Heddlu (ar gyfer ceisiadau'r Heddlu yn unig)<br>3. Cyflwyno i'r tîm Comisiynu a Grantiau<br>4. Tîm comisiynu yn mewngofnodi taenlen<br>5. Rheolwr cyllid allanol yn dyrannu cyllideb yn seiliedig ar flaenoriaethau a meini prawf<br>6. Y Tîm Comisiynu a Grantiau i anfon Ffurflen derbyn rhoddion i'r sefydliad i'w gwblhau<br>7. Cwblhau'r templed log penderfyniad a chyfieithu | CHTh – i'w gymeradwyo trwy adroddiadau i Dîm Gweithredol SCHTh bob pythefnos | Matrics sgorio | Rhoddion yn unig | Adrodd i'r Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu (CAB)<br><br>Ymweliad safle - wedi'i gwblhau templed<br><br>Ystyried datganiad i'r wasg | Adrodd i'r Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu (CAB) |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | cysylltiedig, uwchlwytho i wefan ac ati (gweler y polisi log penderfyniad)<br>8. Tîm comisiynu i gwblhau ffurflen BACS – i'w lofnodi gan y CC | | | | | |
| £1,500 - £4,999<br><br>Ceisiadau mewnol ac allanol | 1. Cwblhau profforma - Swyddogion Ymgysylltu neu'r Heddlu<br>2. Sicrhau goruchwyliaeth gan y Prif Swyddog priodol i'w gymeradwyo yn unol â pholisi'r Heddlu (ar gyfer ceisiadau'r Heddlu yn unig)<br>3. Cyflwyno i'r tîm Comisiynu a Grantiau<br>4. Tîm comisiynu yn mewngofnodi taenlen<br>5. Rheolwr cyllid allanol yn dyrannu cyllideb yn seiliedig ar flaenoriaethau a meini prawf<br>6. Y Tîm Comisiynu a Grantiau i anfon Ffurflen derbyn rhoddion i'r Heddlu i'w gwblhau<br>7. Cwblhau templed log penderfyniad a chyfieithiad cysylltiedig, uwchlwytho i'r | CHTh – i'w gymeradwyo trwy adroddiadau i Dîm Gweithredol SCHTh bob pythefnos | Matrics sgorio | Cytundeb grant un dudalen | Adrodd i'r Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu (CAB)<br><br>Ymweliad safle<br><br>Adroddiad canlyniad un dudalen i'w ddarparu gan y derbynnydd | Adrodd i'r Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu (CAB)<br><br>Gofyn am anfonebau / taflenni amser wrth gefn fel tystiolaeth o wariant |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | wefan ac ati (gweler y polisi log penderfyniad)<br>8. Tîm comisiynu yn cwblhau ffurflen BACS – i'w lofnodi gan y CC | | | | | |
| £5000 - £24,999<br><br>Dyraniad grant wedi'i gynllunio h.y. Cronfa Gymunedol y Comisiynydd neu achos busnes mewnol | Mewnol<br>1. Cynnig prosiect yn cael ei gwblhau gan yr ymgeisydd<br>2. Ei lofnodi gan swyddog awdurdodedig yn unol â'r awdurdod dirprwyedig yn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol (CGF)<br>3. Yn unol â'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol adroddwyd i Grŵp Prif Swyddogion ac ymlaen i'r Bwrdd Plismona am benderfyniad<br>4. Rheolwr Ariannu Allanol i ddyrannu'r gyllideb yn seiliedig ar flaenoriaethau a meini prawf<br>5. Cwblhau'r cofnod penderfyniadau a'r gofynion cysylltiedig (os cânt eu trafod yn y Bwrdd Plismona, mae cofnodion yn gweithredu fel log penderfyniadau) | CHTh – i'w gymeradwyo trwy adroddiadau i Dîm Gweithredol SCHTh bob pythefnos | Matrics sgorio | Cytundeb grant | Adrodd i'r Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu (CAB)<br><br>Adroddiad monitro canlyniadau fel y manylir yn y cytundeb grant<br><br>Ymweliad safle | Adrodd i'r Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu (CAB)<br><br>Anfonebau gyda thystiolaeth ategol h.y. anfonebau neu daflenni amser<br><br>Cwblhau ffurflen hawlio yn unol â'r cytundeb grant |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | 6. Y tîm comisiynu'n cofnodi ar daenlen ganolog<br><br>Allanol:<br>1. Ffurflen gais yn cael ei chwblhau gan yr ymgeisydd<br>2. Ei chyflwyno i'r tîm Comisiynu (trwy fewnflwch e-bost Comisiynu)<br>3. Tîm comisiynu'n cofrestru cais a chynnal gwiriadau cefndir (gan gynnwys comisiwn elusennau ac ati) – gweler Rheoliadau Caffael.<br>4. Cael ei sgorio ar y matrics ac ystyriaethau'n cael eu gwirio gan y Rheolwr Ariannu Allanol<br>5. Argymhelliad i'r CHTh i'w gymeradwyo neu fel arall trwy adroddiad y Tîm Gweithredol<br>6. Tîm comisiynu yn cwblhau log penderfyniadau a gofynion cysylltiedig<br>7. Rheolwr Ariannu Allanol yn darparu cytundeb grant i'w lofnodi gan yr ymgeisydd | | | | | |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| £25,000 a mwy | Mewnol:<br>1. Cynnig prosiect yn cael ei gwblhau gan yr ymgeisydd<br>2. Cael ei lofnodi gan swyddog awdurdodedig yn unol â'r awdurdod dirprwyedig yn y Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol (CGF)<br>3. Cael ei gyflwyno i'w ystyried gan y Grŵp Newid a Thrawsnewid<br>4. Yn unol â'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol adroddwyd i Grŵp Prif Swyddogion ac ymlaen i'r Bwrdd Plismona am benderfyniad<br>5. Rheolwr Ariannu Allanol i ddyrannu'r gyllideb yn seiliedig ar flaenoriaethau a meini prawf<br>6. Cwblhau'r log penderfyniadau a'r gofynion cysylltiedig (os cânt eu trafod yn y Bwrdd Plismona, mae cofnodion yn gweithredu fel log penderfyniadau)<br>7. Y tîm comisiynu'n cofnodi ar daenlen ganolog | CHTh – i'w gymeradwyo trwy adroddiadau i Dîm Gweithredol SCHTh bob pythefnos | Matrics sgorio | Cytundeb grant | Darparwyr i gyflwyno i'r Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu (CAB)<br><br>Adroddiad monitro canlyniadau fel y manylir yn y cytundeb grant<br><br>Ymweliad safle | Darparwyr i gyflwyno i'r Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu (CAB)<br><br>Anfonebau gyda thystiolaeth ategol h.y. anfonebau neu daflenni amser<br><br>Cwblhau ffurflen hawlio yn unol â'r cytundeb grant |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | Allanol:<br>1. Yr ymgeisydd yn cwblhau ffurflen gais<br>2. Ei chyflwyno i'r tîm Comisiynu (trwy fewnflwch e-bost Comisiynu)<br>3. Tîm comisiynu i gofrestru cais a chynnal gwiriadau cefndir (gan gynnwys comisiwn elusennau ac ati) – gweler Rheoliadau Caffael.<br>4. Cael ei sgorio ar y matrics ac ystyriaethau'n cael eu gwirio gan y Rheolwr Ariannu Allanol<br>5. Argymhelliad i'r CHTh i'w gymeradwyo neu fel arall trwy adroddiad y Tîm Gweithredol<br>6. Y tîm comisiynu yn cwblhau log penderfyniadau a gofynion cysylltiedig<br>7. Rheolwr Ariannu Allanol yn darparu cytundeb grant i'w lofnodi gan yr ymgeisydd | | | | | |
| Noder: Gwasanaetha u comisiwn | Yn unol â rheoliadau Caffael trwy GwerthwchiGymru | Yn unol â rheoliadau Caffael | Yn unol â rheoliadau Caffael | Contract CHTh | Yn unol ag Atodiad B o'r contract: | Dim ond unwaith y derbynnir |

| | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | Telerau ac Amodau | • Adroddiadau perfformiad chwarterol<br>• Cyfarfodydd monitro contractau chwarterol<br>• Ymweliadau safle | adroddiad perfformiad chwarterol a chynhelir y cyfarfod y caiff anfonebau eu hawdurdodi.<br><br>Yn unol ag Atodiad C o'r contract: Bydd y darparwr yn cyflwyno datganiad ariannol diwedd blwyddyn yn dangos gwariant alldro gwirioneddo l. |

Noder: Pob datganiad i'r wasg / gweithgaredd cysylltiadau cyhoeddus i'w gofnodi ar y daenlen grantiau i'w adrodd trwy DPA Comisiynu o dan y Protocol Plismona

**Detholiadau perthnasol o Gylch Gorchwyl y Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu:**

Diben y cyfarfod:

Mae CHTh Dyfed-Powys yn gosod cyllideb flynyddol er mwyn hwyluso comisiynu gwasanaethau. Yn ogystal â hyn, mae wedi darparu nifer o raglenni ariannu i sefydliadau partner a chymunedau wneud cais iddynt, a fydd yn ariannu prosiectau cyfalaf a refeniw sy'n cefnogi gweledigaeth ei Gynllun Heddlu a Throseddu.

Amcan y cyfarfod:

Bydd y Bwrdd Cynghori ar Gomisiynu yn gweithredu fel y corff adolygu ar gyfer Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys gan ei gynghori mewn perthynas â dyfarnu arian grant neu dendro am wasanaethau. Bydd hyn yn cynnwys sicrhau bod elw ar fuddsoddiad a gwerthusiad o effaith gwasanaethau.

Bydd y bwrdd yn canolbwyntio ar graffu ar yr adolygiad achos busnes a dwyn darparwyr gwasanaethau i gyfrif.

Canlyniadau:

- Ystyried amrywiaeth o opsiynau ar gyfer buddsoddi mewn gwasanaethau
- Goruchwylio canlyniadau a threfniadau monitro ar gyfer darparu gwasanaethau yn erbyn y Cynllun Heddlu a Throseddu a’r Cynllun Cyflawni, gan gynnwys fframweithiau monitro perfformiad effeithiol, targedau a strwythurau adrodd
- Derbyn gwerthusiadau, gwneud argymhellion a chadw trosolwg ar yr holl achosion busnes posibl i sicrhau cyllid ychwanegol i Ddyfed-Powys (gan gynnwys Cronfa Trawsnewid yr Heddlu, cronfeydd a gychwynnwyd gan y Swyddfa Gartref / Llywodraeth Cymru, cynigion cydweithredol rhanbarthol megis Trais yn Erbyn Menywod ac ati).
- Craffu dyraniad cyllid grant a gymeradwywyd gan y CHTh
- Sicrhau tegwch a thryloywder yn y broses o wneud penderfyniadau a hysbysu Swyddog Monitro Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu am unrhyw arfer annheg a welwyd.

**Detholiadau perthnasol o'r Fframwaith Llywodraethu Corfforaethol:**

Adran 4.3.9 Rhaid i unrhyw geisiadau am grant, adennill incwm a materion codi tâl, neu unrhyw gyfleoedd sy'n cael eu hystyried, gael eu hadrodd i'r Grŵp Prif Swyddogion ac wedi hynny i'r Bwrdd Plismona i'w cymeradwyo cyn i unrhyw waith manwl gael ei wneud.

Adran 6.3 Rôl Prif Swyddog Cyllid y CHTh

6.3.5 Er mwyn galluogi'r Prif Swyddog Cyllid i gyflawni'r dyletswyddau hyn ac i sicrhau bod y CHTh yn cael cyngor ariannol digonol, rhaid i'r Prif Swyddog Cyllid:

- arwain y gwaith o hyrwyddo a chyflawni rheolaeth ariannol dda gan y CHTh fel bod arian cyhoeddus yn cael ei ddiogelu bob amser a'i ddefnyddio'n briodol, yn ddarbodus, yn effeithlon ac yn effeithiol; a

Adran 11.3 Trefniadau Gweithio / Partneriaethau ar y Cyd

11.3.12 Pan fydd y CHTh yn gweithredu fel comisiynydd gwasanaethau, bydd angen iddo/iddi gytuno ar y blaenoriaethau a'r canlyniadau a rennir y disgwylir eu cyflawni drwy'r contract neu gytundeb grant gyda phob darparwr.

| | |
|---|---|
| CHTh | • Ystyried blaenoriaethau perthnasol partneriaid lleol wrth ystyried a gosod y Cynllun Heddlu a Throseddu.<br>• Gwneud trefniadau priodol i gomisiynu gwasanaethau naill ai gan yr Heddlu neu ddarparwyr allanol.<br>• Gwneud grantiau trosedd ac anhrefn. |

| | |
|---|---|
| Prif Swyddogion | • Dilyn y Gweithdrefnau Ariannol ar gyfer partneriaethau lleol, fel y'u cyhoeddwyd ar fewnrwyd yr Heddlu.<br>• Ymgynghori, cyn gynted â phosibl, â’r Cyfarwyddwr Cyllid a’r Prif Swyddog Cyllid i sicrhau bod trethiant a threfniadau cyfrifyddu eraill yn cael eu trin yn gywir.<br>• Cynhyrchu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth (MOU) yn nodi'r trefniadau llywodraethu priodol ar gyfer prosiectau. Dylai'r ddogfen hon gael ei llofnodi gan y CoS. |

11.3.15 Gall y CHTh gomisiynu gwasanaethau gan sefydliadau eraill yn ogystal â'r Heddlu er mwyn cyflawni'r canlyniadau gorau am werth gorau i bobl Dyfed-Powys.

Adran 14.9 Ffurf y Contract
14.9.1 Bydd pob contract yn ysgrifenedig. Pan fydd contract yn fwy na £25,000, bydd y contract ar ffurf a gymeradwyir gan y Prif Swyddog Cyllid. Gellir cwblhau contractau y mae eu gwerth yn llai na £25,000 trwy ddefnyddio ffurflen archebu swyddogol ynghyd â thelerau ac amodau safonol y CHTh. Rhoddir tystiolaeth ysgrifenedig o ddyfyniadau llafar wedi'u hategu gan ffurflen archebu briodol.

# *Atodiad 2: Asesiad o Anghenion Dyfed-Powys 2019: Dioddefwyr a Phobl Fregus*

## Crynodeb Gweithredol

Mae gan Gomisiynydd yr Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys (CHTh) gyfrifoldebau statudol i gomisiynu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr. Mae’r CHTh yn comisiynu cynnig cymorth cyffredinol i ddioddefwyr a chymorth arbenigol arall i ddioddefwyr sydd mewn perygl o gael eu herlid dro ar ôl tro, dioddefwyr troseddau difrifol a dioddefwyr eraill sy’n fregus ac sy’n cael eu dychryn. Gan weithio gyda phartneriaid, mae’r CHTh yn comisiynu’r canlynol:

- Yn cyflawni'r nod allweddol o sicrhau bod dioddefwyr yn ymdopi ac yn gwella
- Yn lleihau ac yn atal erledigaeth ailadroddus
- Yn cefnogi dioddefwyr bregus a rhai sy’n cael eu bygwth i gymryd rhan mewn llwybr cefnogaeth sy'n cwrdd ag anghenion sy'n deillio o'u bregusrwydd ar bob cam o’r broses cyfiawnder troseddol.

Gyda'i gilydd, mae'r rhain yn helpu i wella boddhad dioddefwyr a hyder ehangach y cyhoedd yn y system cyfiawnder troseddol. Comisiynwyd George Partnership Limited gan y CHTh i baratoi Asesiad o Anghenion fel bod comisiynu a thargedu gwasanaethau yn y dyfodol yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau ac yn canolbwyntio ar anghenion sylfaenol. Bydd hyn yn helpu i ysgogi ymagwedd a arweinir gan dystiolaeth at gomisiynu a datblygu partneriaeth yn y dyfodol ac i ddeall lle gall y CHTh effeithio orau o ran sicrhau cymorth i fwy o ddioddefwyr a phobl fregus mewn cydweithrediad â phartneriaid. Cytunwyd ar adolygiad dull cymysg gyda Swyddfa CHTh (SCHTh), gan gasglu data rhwng Ionawr a Chwefror 2019.

### *Cyd-destun*

Mae Dyfed-Powys yn cynnwys ardaloedd awdurdodau lleol Sir Gaerfyrddin, Ceredigion, Sir Benfro a Phowys, ardal sy’n cwmpasu dros hanner Cymru. Mae poblogaeth Dyfed-Powys yn fwy na 515,000. Mae hyn yn cynnwys mwy na 86,000 o blant a phobl ifanc rhwng 0 a 15 oed. Mae Dyfed-Powys ar y cyfan yn boblogaeth llawer hŷn na gweddill Cymru ac yn heneiddio'n gyflym. Mae heneiddio cyflym poblogaeth Dyfed-Powys yn digwydd ochr yn ochr â:

- Newid technolegol
- Cyni dan arweiniad Llywodraeth y DU

- Niferoedd cynyddol o blant ac oedolion ag anghenion iechyd meddwl
- Diwygiadau deddfwriaethol gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, Deddf Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) 2015 (VAWDASV) a Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014
- Blaenoriaeth a rennir ar gyfer gwell dealltwriaeth a chefnogi'r rhai sy'n fwy bregus i broblemau cynyddol ac anfantais sydd wedi gwreiddio'n ddwfn.

Mae'r datblygiadau hyn yn datgan tipyn o newid yn y modd y mae gwasanaethau cyhoeddus ar draws y sector statudol a gwirfoddol a chymunedol yn gwasanaethu trigolion Dyfed-Powys. Mae mwy o ffocws nag erioed ar atal ac ymyrraeth gynnar, gyda phartneriaid amlasiantaethol yn cydweithio llawer mwy i integreiddio gwasanaethau a symleiddio llwybrau cymorth yn enwedig ar gyfer y rhai sydd mewn perygl o broblemau cynyddol. Mae hyn yn gyson ag arfer gorau ynghylch yr hyn sy'n gweithio i bobl sydd wedi profi erledigaeth a/neu sy'n agored i droseddu ac erledigaeth dro ar ôl tro.

Arweinir y rhan fwyaf o'r gwaith hwn drwy Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus ym mhob un o'r 4 ardal awdurdod lleol a thrwy drefniadau rhanbarthol ar gyfer diogelu plant ac oedolion, mynd i'r afael â VAWDASV, camddefnyddio sylweddau ac alcohol, tai â chymorth a gwella iechyd a gofal cymdeithasol, gan gynnwys mynediad i wasanaethau iechyd meddwl i blant ac oedolion. Y trefniadau llywodraethu rhanbarthol a lleol hyn yn gynyddol yw'r lle i ysgogi llwybr cymorth mwy cydlynol ar gyfer dioddefwyr troseddau a phobl fregus.

Bydd comisiynu gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr a gwasanaethau atal troseddau yn y dyfodol hefyd yn cael mwy o effaith drwy ddulliau mwy integredig sy'n meithrin cydweithio rhwng partneriaid allweddol yn y sectorau statudol a gwirfoddol. Yn y modd hwn, mae plant ac oedolion sy'n ddioddefwyr mwy bregus yn cael eu nodi'n gynt ac y mae eu hanghenion yn cael eu diwallu mewn ffyrdd sy'n addas ar eu cyfer, gan gynnwys eu hanghenion o ran y Gymraeg, natur wledig, anghenion iechyd meddwl ac anableddau, er enghraifft.

## *Tueddiadau troseddu sy'n dod i'r amlwg*

Mae Dyfed-Powys yn gymharol fwy diogel na gweddill Cymru a Lloegr. Mae gan Dyfed-Powys lai o droseddau fesul 1,000 o bobl na'r holl ardaloedd heddlu eraill ym mhob categori trosedd ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Medi 2018 (50.7 trosedd fesul 1,000 o bobl o'i gymharu â chyfartaledd ar draws Cymru a Lloegr o 86.4 fesul 1,000 o bobl[i]).

Mae dadansoddiad o dueddiadau o ran trosedd yn dangos bod lefelau byrgleriaeth, troseddau cerbydau, difrod troseddol a llosgi bwriadol a rhai mathau o ladrad wedi gostwng. Bu cynnydd bach mewn troseddau cyffuriau a dwyn o siopau, tra bod troseddau trefn gyhoeddus a throseddau trais, gan gynnwys trais rhywiol a cham-drin domestig, wedi tyfu'n fwy sylweddol. Mae mathau di-drais o gam-drin domestig hefyd yn cynyddu'n gyflym. Dau faes arall o bryder allweddol, sy'n effeithio'n anghymesur ar bobl hŷn a phlant ac oedolion mwy bregus, yw:

- Lefelau cynyddol o seiberdroseddau (cynnydd o 201% yn y cyfnod Ebrill 2016 - Rhagfyr 2018); a
- Thwyll sy'n yn cyfrif am hanner yr holl droseddau (ac yn aml nad yw'n cael ei adrodd).

### *Proffil Dioddefwyr*

Mae data Heddlu Dyfed-Powys yn dangos bod hanner yr holl droseddau seiliedig ar ddioddefwyr yn[ii] Nyfed-Powys yn ymwneud â thrais yn erbyn yr unigolyn (20,890 o gyfanswm o 41,015 o droseddau). Wrth i rywun fynd yn hŷn, mae llai o debygolrwydd pan fydd rhywun yn dioddef trosedd bod hyn yn ymwneud â thrais:

- Plant rhwng 0 ac 11 oed (mae 70% o'r holl droseddau sy'n effeithio ar blant rhwng 0 ac 11 oed yn cynnwys trais)
- Plant 12-17 oed (60%)
- Unigolion 18-29 oed (60%), gyda mwy na 3 o bob 10 o'r holl droseddau yn ymwneud â thrais yn erbyn yr unigolyn yn Nyfed-Powys yn effeithio ar y rhai 18-29 oed.
- Unigolion rhwng 30 a 35 oed (56%)
- Unigolion rhwng 36 a 47 oed (50%)
- Unigolion 48-59 oed (42%)
- Unigolion 60+ oed (27%), gydag ychydig mwy nag 1 o bob 20 o'r holl droseddau yn ymwneud â thrais yn erbyn y person sy'n effeithio ar y rhai 60+ oed.

Mae troseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr yn fwy tebygol o effeithio ar bobl 18-35 oed yn Nyfed-Powys (yn agos at 2 o bob 5 o'r holl droseddau), ac er bod y tebygolrwydd o brofi erledigaeth yn gyffredinol yn lleihau wrth i rywun fynd yn hŷn, mae'r rhai 60+ oed yn cyfrif am 12% o'r holl ddioddefwyr (a 14.4% o'r holl ddioddefwyr gwrywaidd).

O'r holl droseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr, mae 53% yn cael eu cofnodi fel 'menywod' a 47% yn 'ddynion'. Mae menywod yn fwy tebygol o gael eu cofnodi fel dioddefwyr rhwng 12 a 47 oed, tra bod dynion yn fwy tebygol o gael eu cofnodi fel dioddefwyr 48+ oed. Mae hyn yn cael ei yrru gan droseddau rhywiol (mae mwy na 4 o bob 5 o'r holl ddioddefwyr yn fenywod) a throseddau trais eraill yn erbyn y person (mae 11 o bob 20 o'r holl ddioddefwyr yn fenywod). Tra bod troseddau cerbyd yn cyfrif am 4% o droseddau seiliedig ar ddioddefwyr, mae dynion yn ymddangos yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr (cofnodir bron i 7 o bob 10 o ddioddefwyr troseddau cerbyd fel gwryw). Yn yr un modd, mae byrgleriaethau preswyl yn cyfrif am 4.8% o droseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr gyda dynion yn ymddangos yn fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr (gydag 11 o bob 20 o'r holl ddioddefwyr wedi'u cofnodi fel dynion). Fodd bynnag, nid yw'n hysbys a yw hyn yn ymwneud yn unig â'r unigolyn sy'n adrodd yn gyntaf ar ran teulu er enghraifft. Mae mwy nag 1 ym mhob 4 byrgleriaeth breswyl hefyd yn effeithio ar bobl 60+ oed yn Nyfed-Powys.

Wrth i rywun fynd yn hŷn, mae'n fwy tebygol pan fydd rhywun yn dioddef trosedd bod hyn yn cynnwys lladrad a llosgi bwriadol a difrod troseddol. Er bod lladrad yn cyfrif am 11.7% a llosgi bwriadol a difrod troseddol yn cyfrif am 14.8% o'r holl droseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr, mae'r troseddau hyn gyda'i gilydd yn cyfrif am fwy nag 1 o bob 3 o'r troseddau sy'n effeithio ar unigolion 48-59 oed ac yn agos at hanner y troseddau sy'n effeithio ar bobl 60 oed+. Ar y llaw arall, mae'r rhain yn cyfrif am 1 o bob 5 trosedd sy'n effeithio ar unigolion 18-29 oed a llai nag 1 o bob 10 trosedd sy'n effeithio ar blant 12-17 oed.

Mae plant 0-17 oed yn llai tebygol o ddioddef trosedd, sef 15.2% o ddioddefwyr. Mae troseddau rhywiol yn cyfrif am 6.4% o'r holl droseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr yr adroddir amdanynt, gyda phlant 0-17 oed yn cynrychioli 63% o'r troseddau hyn (1,558 o 2,485 o droseddau, lle mae oedran y dioddefwr yn hysbys). Mae hyn yn effeithio'n anghymesur ar ferched (tua 4 o bob 5), yn enwedig merched 12-17 oed.

Lle mae ethnigrwydd dioddefwr yn hysbys, mae 98.5% yn Ewropeaid Gwyn (y mwyafrif llethol ohonynt yw Gwyn Cymreig a Gwyn Prydeinig). Mae ychydig o dan 1% o'r holl ddioddefwyr yn Asiaidd, 0.5% o ddioddefwyr yn Ddu a 0.2% yn Arabeg neu o Ogledd Affrica.

### *Carfannau allweddol ar gyfer cymorth mwy arbenigol a chymorth wedi'i dargedu*

Ar gyfer dioddefwyr troseddau mwy difrifol a/neu oherwydd gwendidau eraill sydd gan rywun, megis erledigaeth flaenorol ac effeithiau trawma sy’n gysylltiedig â phrofiadau niweidiol yn ystod plentyndod (ACEs), bydd gan rai anghenion lluosog sy’n gofyn am ymagwedd amlasiantaethol i helpu i ymdopi ac ymadfer ar ôl trosedd. Yn ogystal â ffocws cynyddol ar atal a chefnogi’r rhai y mae twyll yn effeithio arnynt, mae’r Asesiad o Anghenion yn nodi mai’r carfannau allweddol lle mae angen mwy o waith darparu cymorth arbenigol i ddioddefwyr yw:

- Mwy o blant a phobl ifanc bregus, yn enwedig y rhai y mae gweithgarwch llinellau cyffuriau yn effeithio arnynt, sydd mewn perygl o gael eu hecsbloetio (e.e. trwy linellau cyffuriau, cyfryngau ar-lein ac sy’n mynd ar goll dro ar ôl tro) ac sy’n cael eu heffeithio gan brofiadau niweidiol niferus yn ystod eu plentyndod (ACEs).
- Dioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol, gyda lefelau cynyddol o gam-drin domestig a thrais rhywiol a llawer rhy ychydig yn cael ei ddarparu gan bartneriaid i fynd i’r afael ag anghenion therapiwtig dioddefwyr.
- Gweithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal a’r Byrddau Plismona i sicrhau gwasanaethau cyffuriau ac alcohol effeithiol, oherwydd bod pobl â phroblemau cyffuriau ac alcohol yn profi mwy o droseddu ac i leihau troseddu sy’n gysylltiedig â phroblemau cyffuriau ac alcohol.

### *Gwersi o gomisiynu presennol*

Mae dioddefwyr troseddau yn profi amrywiaeth o broblemau emosiynol ac ymarferol o ganlyniad i droseddu. Mae'r arfer gorau yn dweud wrthym fod angen gwybodaeth amserol a chywir ar ddioddefwyr troseddau mewn fformatau sy'n addas iddyn nhw. Mae hyn yn helpu i ymdopi ag effaith erledigaeth ac i gynnal cyfranogiad mewn prosesau Cyfiawnder Troseddol. Gan fod erledigaeth droseddol yn brofiad hynod bersonol, nid yw pob dioddefwr angen mynediad at yr un gwasanaethau ar yr un pryd.

Yn bennaf, mae anghenion cymorth emosiynol ac ymarferol dioddefwyr trosedd yn cael eu diwallu o fewn eu teuluoedd a’u cymunedau eu hunain, gyda chyfran sylweddol yn canfod bod eu hanghenion yn cael eu diwallu trwy wasanaethau cymorth i ddioddefwyr rheng flaen a gomisiynir gan y

CHTh. Mae gwasanaethau cymorth rheng flaen i ddioddefwyr wedi cael eu hailgynllunio'n sylweddol yn Nyfed-Powys gyda chyflwyniad Goleudy. Ar gyfer y flwyddyn a ddaeth i ben ym mis Tachwedd 2018, cyflawnodd yr Heddlu gyfradd boddhad 'profiad cyfan' ar gyfer dioddefwyr troseddau o 77.4%. Ar gyfer y camau nesaf yn natblygiad Goleudy, gwella ymwybyddiaeth o'r gwasanaeth a sicrhau bod pob darpar ddioddefwyr yn ymwybodol o'r cymorth presennol yw'r prif argymhellion. Mae hefyd yn flaenoriaeth bwysig sicrhau adroddiadau perfformiad cadarn. Bydd hyn yn sicrhau i ba raddau y mae anghenion dioddefwyr yn cael eu diwallu yn fwy tryloyw.

Mae'r CHTh wedi ariannu ystod amrywiol o wasanaethau cymorth i ddioddefwyr ac atal trosedd mwy arbenigol ac wedi'u targedu hefyd. Mae gan y gwasanaethau lawer o nodweddion sy'n gysylltiedig ag ansawdd da (e.e. staff â chymwysterau priodol, systemau sicrhau ansawdd cydnabyddedig a defnyddio dulliau sy'n seiliedig ar dystiolaeth) ac maent yn gwneud gwahaniaeth i'r bobl sy'n eu defnyddio.

Un o gryfderau pennaf y trefniadau presennol yw bod y rhai sy'n defnyddio gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr ac atal troseddau arbenigol a thargededig a ariennir gan y CHTh yn gadarnhaol iawn am eu profiadau o gael mynediad at gymorth. Roedd hyn yn arbennig o amlwg mewn adborth trwy gyfweliadau a grwpiau ffocws gyda defnyddwyr gwasanaeth yn ymgysylltu â Chynghorwyr Trais Domestig Annibynnol (IDVAs), Cynghorwyr Trais Rhywiol Annibynnol (ISVAs), gwasanaethau cyffuriau ac alcohol a ddarperir gan Wasanaethau Cyffuriau ac Alcohol Dyfed ac o'r peilot dargyfeirio o'r ddalfa. Roeddent yn canmol ansawdd eu perthynas â'r gwasanaethau hyn ac yn fwyaf arbennig, lefel gwybodaeth, sgiliau a hyder y staff. Maent hefyd yn nodi ystod o effeithiau cadarnhaol iddyn nhw eu hunain o ganlyniad i fanteisio ar y cymorth.

Mae meysydd cryfder allweddol eraill o'r comisiynu presennol yn cynnwys:

- Datblygu darpariaeth IDVA decach a chyson ar draws y rhanbarth, gyda dull cydweithredol yn cynnwys Hafan Cymru a Pobl (Gwalia).
- Effeithiolrwydd y timau troseddwyr ifanc (TTI) wrth leihau'r rhai sy'n dod i mewn i'r system Cyfiawnder Troseddol am y tro cyntaf a chefnogi dioddefwyr troseddau. Mae hyn yn arbennig o wir ar gyfer plant a phobl ifanc 10-13 oed sydd â sawl profiad niweidiol yn eu plentyndod (ACE) lle gall Timau Troseddwyr Ifanc ddangos tystiolaeth o leihau troseddu 50% (2 flynedd ar ôl ymyrraeth).

- Ar draws y 2 wasanaeth camddefnyddio sylweddau a gomisiynwyd, mae mwy na £1.5m o arbedion blynyddol i asiantaethau'r sector cyhoeddus yn sgil defnyddio llai o gyffuriau ac alcohol a llai o droseddu, gyda dros 50% o'r arbedion yn cronni i bartneriaid Cyfiawnder Troseddol. Yn ogystal, mae gwasanaethau camddefnyddio sylweddau Cyfiawnder Troseddol wedi'u hintegreiddio i'r gwasanaeth ehangach sy'n cael ei gynnig i bobl ag anghenion sylweddau ac alcohol, gyda gweithwyr cyswllt carchardai arbenigol yn chwarae rhan hollbwysig wrth hwyluso trosglwyddiad diogel troseddwyr â phroblemau cyffuriau a/neu alcohol i'r gymuned.
- Parodrwydd i arloesi, gan adeiladu felly ar gynllun peilot cynharach ar gyfer troseddwyr benywaidd i sicrhau bod peilot dargyfeirio o'r ddalfa ar gael er enghraifft. Er ei bod yn ddyddiau cynnar, mae'n galonogol bod 36 o bobl sydd wedi cwblhau contractau, mae 87% heb gyflawni unrhyw droseddau pellach.

Mae meysydd allweddol ar gyfer gwella yn ymwneud â:

- Gweithio gyda phartneriaid yn enwedig Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda, Bwrdd Iechyd Addysgu Powys a thrwy'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a Byrddau Cynllunio Ardal i fynd i'r afael â'r heriau y mae dioddefwyr trosedd ac unigolion â phroblemau cyffuriau a/neu alcohol yn eu hwynebu wrth geisio cael cymorth ar gyfer eu problemau iechyd meddwl. Mae rhoi blaenoriaeth benodol i sicrhau bod mwy o gymorth therapiwtig ar gael i ddioddefwyr trais rhywiol, gan gynnwys plant a phobl ifanc fel blaenoriaeth ar unwaith.
- Sicrhau bod holl ddioddefwyr trais rhywiol yn cael cyfleoedd ar gyfer darpariaeth arbenigol drwy'r Ganolfan Gefnogi Ymosodiadau Rhywiol (SARC).
- Helpu i oresgyn cymorth annigonol a thameidiog i ddioddefwyr cam-drin domestig sy'n arwain i mewn ac o fewn prosesau llys, sy'n effeithio ar ymgysylltiad dioddefwyr â phrosesau Cyfiawnder Troseddol. Ar yr un pryd, mae gan ddioddefwyr cam-drin domestig anghenion cymorth eang nad ydynt yn cael eu diwallu'n gyson dda gan bartneriaid.
- Helpu i oresgyn y lefelau isel o gyfranogiad dioddefwyr gyda'r cynnig cyfiawnder adferol trwy gymhwyso dulliau arfer gorau. Er enghraifft, trwy gynnig mwy hyblyg o gyfiawnder adferol sydd ar gael i ddioddefwyr troseddau gan staff â chymwysterau priodol.

- Sicrhau bod pobl ifanc sydd mewn mwy o berygl o droseddu/bod yn ddioddefwr trosedd yn cael cyfleoedd di-dor i gael mynediad at y gefnogaeth fwyaf perthnasol gan yr ystod ehangaf o gefnogaeth sydd ar gael ar draws partneriaid yn y sectorau statudol a gwirfoddol.
- Gweithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal a Byrddau Iechyd i sicrhau gwasanaeth camddefnyddio sylweddau Cyfiawnder Troseddol cyson a theg ar draws y rhanbarth.

## *Atodiad 3: Prif argymhellion ac ymatebion*

*Argymhelliad 1*

Argymhellir bod Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu (CHTh) yn cymryd rôl arweiniol ym mhob ardal awdurdod lleol Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn cynrychioli anghenion a buddiannau dioddefwyr trosedd. Mae hyn yn cynnwys arwain ymdrechion i:

a. Ymgorffori ym mhob proses gynllunio a chomisiynu strategol allweddol gyda phartneriaid, gydnabyddiaeth o ddioddefwyr trosedd a phobl bregus fel carfan benodol o bobl ag anghenion a gofynion penodol.
b. Ymgorffori yn y gwasanaethau prif ffrwd a ddarperir gan bartneriaid, gamau penodol i gefnogi'r gwaith o atal a chanfod seiberdroseddu a thwyll (e.e. rhoi'r offer i llywwyr gofal a swyddogion diogelwch tân gefnogi pobl hŷn sy'n cael eu heffeithio'n anghymesur gan dwyll).
c. Sicrhau bod anghenion pawb y mae Trais yn Erbyn Menywod, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (VAWDASV) yn effeithio arnynt yn cael eu diwallu'n ddigonol gan bartneriaid statudol allweddol, yn enwedig byrddau iechyd ac awdurdodau lleol. Mae hyn yn cynnwys yn arbennig:
    - Mynd i'r afael â'r bwlch mewn ymyriadau therapiwtig ar gyfer dioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol fel blaenoriaeth. Mae'n annerbyniol bod plant a phobl ifanc a llawer o oedolion, er enghraifft, yn aros mwy na blwyddyn am fynediad at gymorth therapiwtig.
    - Hyrwyddo modelau arfer gorau megis ymagweddau integredig at wasanaethau Cynghori Annibynnol ar Drais Domestig (IDVA) a darpariaeth tai â chymorth.

*Ymateb*

Mae gan y CHTh gynrychiolaeth eisoes ar bob Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus. Mae BGC ar hyn o bryd yn adolygu eu rôl, eu heffeithiolrwydd a'u rhyngwynebau â phartneriaethau eraill. Mae hyn yn rhoi cyfle allweddol i'r CHTh ymgysylltu a dylanwadu ar ffrydiau gwaith y dyfodol. Mae prosiectau fel SWAIL, Gwneud i bob Cyswllt Gyfrif a Chysylltwyr Cymunedol eisoes yn bodoli a gallwn geisio gwreiddio hyfforddiant atal twyll ac atal seibr o fewn cynlluniau'r dyfodol.

*Cam Gweithredu: CHTh i barhau i ymgysylltu â'r Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus.*

*Cam Gweithredu: Darparu hyfforddiant twyll i'w drafod gyda Heddlu Dyfed-Powys yn y Bwrdd Plismona ar 3 Medi (ffocws bregusrwydd).*

Mae gan y CHTh eisoes gynrychiolaeth ar Fwrdd Strategol VAWDASV Canolbarth a Gorllewin Cymru, a fynychir gan y Cyfarwyddwr Comisiynu. Roedd y CHTh yn allweddol wrth ddod â phartneriaid ynghyd i gyflawni'r gwasanaeth IDVA cyntaf a gomisiynwyd ar y cyd ar draws Dyfed-Powys, gan ddechrau ym mis Gorffennaf 2018. Trwy waith y Bwrdd Strategol, mae datblygiad pellach o ddulliau a modelau comisiynu yn cael eu harchwilio. Yn ddiweddar, cyfrannodd y Cyfarwyddwr Comisiynu (CC) at y gwaith o fapio nodwedd boblogaidd VAWDASV, ynghyd â'r gweithdy i adolygu ac ailffocysu gwaith y Bwrdd. Mae'r CC hefyd yn eistedd ar y Pwyllgor Cydweithredol Rhanbarthol lle mae cyfleoedd ar gyfer comisiynu ar y cyd neu alinio â chontractau Cefnogi Pobl yn cael eu harchwilio.

Mae'r CHTh wedi codi pryderon ar lefel Weinidogol a chyda Phrif Weithredwyr asiantaethau partner ynghylch y diffyg darpariaeth gwasanaeth ar gyfer cwnsela therapiwtig parhaus. Dyma neges y bydd Comisiynydd yr Heddlu a Throseddu yn parhau i flaenoriaethu.

*DIWEDDARIAD 2020*:
Mae ymgysylltiad y CHTh â BGCau yn parhau a rhoddodd y CHTh gyflwyniad i'r cyfarfod BGC Rhanbarthol ym mis Tachwedd 2020 yn amlinellu cyflawniadau allweddol hyd yma a blaenoriaethau ar gyfer y dyfodol, gan gynnwys y ffordd orau o alinio'r agendâu. Gofyniad y CHTh gan bartneriaid o amgylch bwrdd y BGC oedd cefnogi ei waith ar ddioddefwyr a phobl ifanc.

Mae Goleudy a Heddlu Dyfed-Powys wedi cysylltu â Chysylltwyr Cymunedol i sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r cyngor a'r gefnogaeth ddiweddaraf sydd ar gael i drigolion bregus.

Mae tîm ymgysylltu y CHTh yn gysylltiedig â chynllun gweithredu BGC Sir Benfro ynghylch ymgysylltu â'r gymuned.

### *Argymhelliad 2*

Argymhellir bod y CHTh yn defnyddio ei brosesau comisiynu ei hun i:

a. Canolbwyntio comisiynu cymorth arbenigol i ddioddefwyr ar VAWDASV, ecsbloetio a niwed a gyflawnir yn erbyn plant a phobl ifanc a dioddefwyr seiberdroseddu.
b. Sbarduno cydweithrediad rhyngasiantaethol lle mae gwasanaethau statudol a Gwasanaethau Cymunedol a Gwirfoddol yn cydweithio i gynnig cymorth cofleidiol integredig i ddioddefwyr troseddau a phobl sy’n agored i niwed, ac felly mynd i’r afael ag anghenion sy’n ymwneud â:
    - Iechyd meddwl a chorfforol
    - Lloches a llety
    - Teulu, ffrindiau a phlant
    - Addysg, sgiliau a chyflogaeth
    - Cyffuriau ac alcohol
    - Cyllid a budd-daliadau
    - Rhagolwg ac agweddau
    - Rhyngweithio cymdeithasol
c. Hyrwyddo dulliau sy’n seiliedig ar dystiolaeth sy’n dangos effaith ar foddhad dioddefwyr a/neu leihau troseddu, ar yr un pryd â chynnig cyfle i brofi dulliau newydd sy’n seiliedig ar wybodaeth am yr hyn sy’n gweithio.

*Ymateb*

Mae'r gwasanaethau a gomisiynwyd eisoes yn cynnwys ffocws ar y meysydd hyn. Mae ystyriaeth eisoes wedi'i roi i'r gefnogaeth sy'n ofynnol gan ddioddefwyr seiberdroseddu a thwyll; ar y pryd ni nodwyd unrhyw fylchau ond mae lle i ailedrych ar hyn. Mae Goleudy ar hyn o bryd yn darparu gwasanaeth i holl ddioddefwyr troseddau, yn cynnwys y rhai sy'n adrodd i Action Fraud. Dylid ystyried anghenion ehangach dioddefwyr ifanc sydd mewn cysylltiad â Goleudy ar hyn o bryd. Mae’r contract presennol gyda Llamau ar gyfer darparu cymorth a chyfryngu i bobl ifanc coll yn dod i ben ar 31 Mawrth 2020.

*Cam Gweithredu: Trafod gyda Heddlu Dyfed-Powys ynghylch bylchau posibl mewn gwasanaethau atal neu gefnogi i ddioddefwyr seiber/twyll. I'w drafod ym Mwrdd Plismona 3 Medi (ffocws bregusrwydd).*

*Cam Gweithredu: Ail-dendro’r contract ar gyfer pobl ifanc sydd ar goll i’w gwblhau gyda gwasanaeth newydd i ddechrau ar 1 Ebrill 2020.*

*Cam Gweithredu: Goleudy i ddarparu data/achos busnes ynghylch maint ac angen dioddefwyr ifanc*

Disgwylir i ddarparwyr gwasanaeth presennol gydweithio â'r holl bartneriaid statudol a gwirfoddol i sicrhau bod gwasanaethau o'r safon uchaf yn cael eu darparu. Mae prosesau tendro bob amser yn annog ceisiadau consortiwm. Mae cyfleoedd grant yn rhoi hyblygrwydd i ddarparwyr ar raddfa lai gael mynediad at gyllid; mae hyn yn galluogi darpariaeth sy'n ategu gwasanaethau presennol, yn llenwi bylchau a nodwyd yn y ddarpariaeth neu'n profi dulliau newydd. Mae'n ofynnol i bob sefydliad sy'n cael grant neu arian craidd ddarparu canlyniadau i fesur effaith eu gwaith.

*DIWEDDARIAD 2020*:
Mae'r CHTh wedi ariannu nifer o swyddi o fewn y tîm twyll a throseddau economaidd yn Heddlu Dyfed-Powys. Caiff hyn ei adolygu yn flynyddol. Argymhellir bod swyddogaeth buddion busnes yr Heddlu yn darparu rhywfaint o werthusiad o fuddsoddiad yn y maes hwn.

Mae Goleudy'n gweithio'n agos gyda'r tîm twyll a throsedd economaidd er mwyn darparu gwasanaeth i ddioddefwyr twyll. Mae'r cynnig hwn o wasanaeth y tu hwnt i'r lefel genedlaethol a ddarperir gan Action Fraud.

Mae'r CHTh ar hyn o bryd yn gweithio gyda Barnardos i gynnal dadansoddiad manwl o broffil ac anghenion pobl ifanc sy'n ddioddefwyr troseddau. Caiff hwn ei gwblhau yn gynnar yn 2021 gyda'r bwriad o ddatblygu model gwasanaeth i'w weithredu yn Nhymor 3.

Cafodd gwasanaeth ôl-drafodaeth pobl ifanc sydd ar Goll ei ail-dendro'n llwyddiannus ac fe'i dyfarnwyd i Llamau i barhau â'r gwasanaeth o fis Ebrill 2020. Mae hyn yn cynnig cysondeb gwasanaeth o fewn ardal Dyfed-Powys.

### *Argymhelliad 3*

Gan gefnogi argymhelliad 1b a mynd i'r afael â bwlch o ran diwallu anghenion dioddefwyr troseddau, argymhellir bod y CHTh yn comisiynu cymorth sy'n cynyddu gwybodaeth, sgiliau a hyder i gefnogi dioddefwyr twyll ac yn codi ymwybyddiaeth o sut i atal twyll. Argymhellir cynnwys gweithredoedd penodol sy'n sicrhau bod:

a. Cymorth ar gael i gefnogi'r datblygiadau cyflym a'r newidiadau yn y modd y cyflawnir twyll, gan gynnwys twyll a gyflawnir yn ddigidol. Mae hyn yn cynnwys cysylltu â swyddogion perthnasol o fewn timau seiberdroseddu a thwyll Heddlu Dyfed-Powys.
b. Anghenion penodol pobl hŷn sy'n fwy tebygol o fod yn ddioddefwyr twyll ac yn llai tebygol o adrodd am dwyll yn ffocws allweddol i'r cymorth.

*Ymateb*

Mae'r CHTh wedi ariannu 2 swydd o fewn tîm Ymchwilio i Dwyll Heddlu Dyfed-Powys i gefnogi Operation Signature a'r Protocol Bancio. Ariennir y swyddi hyn o gronfa Deddf Enillion Troseddau (POCA). Mae hyn yn cynnwys Swyddog Diogelu Rhag Twyll sy'n gyfrifol am addysg yn fewnol ac yn allanol ac ymgysylltu ag asiantaethau partner ac elusennau. Mae'r swyddog yn gyfrifol am weithio gyda Goleudy i sicrhau bod prosesau priodol yn eu lle ar gyfer dioddefwyr.

*Cam Gweithredu: Gofyn am ddiweddariad gan Heddlu Dyfed-Powys ar gyflawniadau a chanlyniadau'r tîm hwn, yn enwedig pa waith atal a chodi ymwybyddiaeth a wneir gyda dioddefwyr bregus. I gynnwys diweddariad gan Goleudy ynghylch y rhyngwyneb gyda'r Swyddog Diogelu Rhag Twyll a sut mae hyn yn gwella'r gefnogaeth a ddarperir i ddioddefwyr. I'w drafod ym Mwrdd Plismona 3 Medi (ffocws bregusrwydd).*

*DIWEDDARIAD 2020:*

Derbyniwyd cyflwyniadau yn y Bwrdd Plismona ynghylch cynnydd y tîm twyll a throseddau economaidd a'u gwaith partneriaeth gyda Goleudy. Fel y cyfeiriwyd yn gynharach, mae'e CHTh wedi ymrwymo buddsoddiad pellach i'r tîm hwn sy'n cael ei adolygu'n flynyddol.

*Argymhelliad 4*

Argymhellir bod y CHTh yn gwella cynllunio a darparu cymorth i ddioddefwyr trwy:

a. Fynnu bod dulliau rheoli perfformiad Goleudy yn cael sylw fel mater o frys.
    - Ei gwneud yn ofynnol i Heddlu Dyfed-Powys roi newidiadau ar waith i lifoedd gwaith TG (fel rhan o ddyfeisiau llaw swyddogion yr heddlu yn ddelfrydol) sy'n galluogi atgyfeirio'n uniongyrchol, ac eithrio lle mae'r dioddefwr wedi optio allan, o bob achos:

- Cynnwys trais rhywiol i New Pathways.
- Aseswyd bod cynnwys cam-drin domestig yn peri risg uchel i Hafan Cymru/Pobl.
- Ac eithrio'r rhai uchod i Goleudy (gan nodi gofynion sy'n berthnasol i droseddau casineb, lladdiad, masnachu mewn pobl ac ati sy'n cael sylw gan wasanaethau cymorth i ddioddefwyr a gomisiynir yn genedlaethol).

b. Digwyddiad gwelliant parhaus sy'n dod â New Pathways, Hafan Cymru/Pobl a Goleudy a gwasanaethau arbenigol eraill at ei gilydd i gytuno ar un protocol sy'n seiliedig ar ymateb a arweinir gan ddioddefwyr ar gyfer yr adegau hynny pan allai dioddefwr gael ei gefnogi gan wasanaethau cymorth rheng flaen ac arbenigol i ddioddefwyr.

c. Datblygu model mwy integredig a hyblyg o gyfiawnder adferol sy'n golygu cydleoli'r gwasanaeth cyfiawnder adferol arbenigol yng Ngoleudy; a lle mae'r gwasanaeth hwnnw'n gyfrifol am gasglu gwybodaeth a chynnig cyfiawnder adferol i ddioddefwyr troseddau, lle bo hynny'n berthnasol.

*Ymateb*

Mae darparu gwybodaeth perfformiad a'r llifoedd gwaith TG gofynnol wedi bod yn flaenoriaeth barhaus ers sefydlu Goleudy yn 2017. Mae'r llifoedd gwaith TG sy'n ymwneud â dioddefwyr eraill yn gofyn am benderfyniad gweithredol ynghylch llwybrau dioddefwyr. Cynhaliwyd nifer o ddigwyddiadau gwelliant parhaus, ond nid yw Heddlu Dyfed-Powys wedi nodi llwybr dioddefwr diffiniol eto. Cynhaliwyd digwyddiad cam-drin domestig ym mis Ionawr 2019 ac mae'r prosiect adolygu cam-drin domestig presennol yn cynnwys bwriad i fapio taith y troseddwr ac ochr yn ochr ag ef llwybr y dioddefwr.

Mae trefniadau gweithio agosach rhwng y gwasanaeth Cyfiawnder Adferol a Goleudy wedi'u hannog ers peth amser bellach, gyda thrafodaethau diweddar yn dod i'r casgliad nad yw cydleoli yn ymarferol ar hyn o bryd. Mae SCHTh eisoes wedi cynorthwyo gyda phrosesau cyfreithiol a rhannu gwybodaeth i sicrhau mynediad priodol i wybodaeth am ddioddefwyr. Fodd bynnag, mae rhwystr o hyd i wasanaethau a gomisiynir rhag cael y mynediad gofynnol at wybodaeth.

*Cam Gweithredu: Amlinelliad o lwybr dioddefwr i'w drafod yn y Bwrdd Plismona 3 Medi (ffocws bregusrwydd). I gynnwys canlyniadau digwyddiad cam-drin domestig, digwyddiad troseddau rhywiol (i'w gyhoeddi ar 10 Gorffennaf) a gwaith adolygu cam-drin domestig.*

*Cam Gweithredu: Materion cyfreithiol ynghylch cael caniatâd gan ddioddefwyr i'w trafod yn y Bwrdd Plismona 4 Gorffennaf (ffocws dioddefwyr).*

*DIWEDDARIAD 2020:*
Cynhaliwyd adolygiad o wasanaethau dioddefwyr a thystion Goleudy ym mis Tachwedd 2019 ac amlinellir argymhellion a chamau gweithredu yn ddiweddarach yn y strategaeth hon. Ymgymerodd SCHTh hefyd â dadansoddiad manwl o ddioddefwyr yn tynnu’n ôl ym mis Rhagfyr 2019 gan arwain at nifer o argymhellion a wnaed i’r Prif Gwnstabl yn tynnu’n ôl ym mis Rhagfyr 2019 gan arwain at nifer o argymhellion a wnaed i’r Prif Gwnstabl.

Mewn ymateb i'r adolygiadau uchod, sefydlodd y Prif Weithredwr Brosiect Adolygu Gweithredu Dioddefwyr sydd wedi cyflawni yn erbyn nifer o feysydd gweithredu. Roedd hyn yn cynnwys adolygiad proses o brofiad y dioddefwyr gan nodi meysydd allweddol i’w gwella. Mae'r cynllun gweithredu hwn yn eiddo i'r Bwrdd Dioddefwyr a Thystion, sydd bellach yn alinio'r grŵp HDP mewnol gydag aelodaeth ehangach partner y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol.

Mae'r Heddlu hefyd wedi sefydlu prosiect o’r dechrau i’r diwedd a fydd yn mynd i'r afael â rhai o'r pryderon allweddol a godwyd yn yr adolygiadau uchod. Adroddir ar gynnydd hyn i'r Bwrdd Plismona.

Mae SCHTh yn gweithio'n agos gyda Bwrdd Strategol VAWDASV i alinio cyfleoedd comisiynu. Mae gwerthusiad o’r ddesg bregusrwydd yn HDP a’r trafodaethau dyddiol cysylltiedig yn cael eu cynnal ym mis Tachwedd 2020. Bydd hyn yn llywio’r cyfeiriad yn y dyfodol ar gyfer comisiynu gwasanaethau cymorth cam-drin domestig. Mae is-grŵp comisiynu wedi'i sefydlu sy'n gyfrifol am gynllunio a chomisiynu gwasanaethau yn y dyfodol.

Mae SCHTh yn cynnal Asesiad Effaith Diogelu Data er mwyn datblygu protocol rhannu gwybodaeth i'w ddefnyddio rhwng Heddlu Dyfed-Powys a'r

Cwmni Adsefydlu Cymunedol. Mae hyn wedi'i seilio ar ddeddfwriaeth ac mae'n cynnwys y dyletswyddau statudol yn y Cod Ymarfer Dioddefwyr (i'w adnewyddu'n fuan fel hawliau dioddefwyr). Bydd hyn yn galluogi achosion lle mae troseddwr wedi'i nodi a chanlyniad yn y llys i gael eu rhannu'n uniongyrchol gyda'r Cwmni Adsefydlu Cymunedol i alluogi cynnig cyfiawnder adferol i'r dioddefwyr.

*Argymhelliad 5*

Argymhellir bod y CHTh yn cymryd rôl arweiniol o fewn VAWDASV a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol i:

a. Hwyluso adolygiad system 'o'r dechrau i'r diwedd' o'r broses Cyfiawnder Troseddol yn arbennig, gyda chysylltiadau â'r system cymorth ehangach ar gyfer y rhai y mae VAWDASV yn effeithio arnynt e.e. ymyriadau therapiwtig a thai.
b. Blaenoriaethu argaeledd ymyriadau therapiwtig i ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol yn unol ag argymhelliad 1c.
c. Sicrhau bod yr holl wasanaethau Cyfiawnder Troseddol a'r rhai a gomisiynir gan y CHTh yn cyfrannu at waith y Grŵp Strategol VAWDASV ar fapio a gwella cysondeb wrth gofnodi data.

*Ymateb*

Ar hyn o bryd mae'r CHTh yn cadeirio'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol (LCJB) ac yn cael ei gynrychioli ar y Bwrdd Strategol VAWDASV rhanbarthol. Mae Bwrdd VAWDASV ar hyn o bryd yn mapio'r dirwedd gomisiynu a llwybrau troseddwyr/dioddefwyr cysylltiedig. Gweler argymhelliad 4 ynghylch llwybrau dioddefwyr ac argymhelliad 1c ynghylch darparu ymyriadau therapiwtig.

*Cam Gweithredu: Cyflwyniad gan yr arweinydd VAWDASV rhanbarthol i'w ddarparu yng nghyfarfod y Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol ym mis Hydref i'r aelodau ei ystyried ac i nodi unrhyw gamau gweithredu gofynnol.*

*DIWEDDARIAD 2020:*

Gweler yr ymateb i argymhelliad 4 ynghylch comisiynu gwasanaethau VAWDASV. Mae'r CHTh hefyd wedi bod yn allweddol wrth ddatblygu sgyrsiau ar lefel Weinidogol er mwyn sicrhau cynnydd gyda'r prosiect SARC Rhanbarthol. O ganlyniad i hyn, mae gan y Bwrdd bellach strwythur llywodraethu ar waith i alluogi partneriaid Iechyd a Heddlu i gomisiynu gwasanaethau SARC acíwt ar y cyd. Bydd Cam 2 y gwaith hwn yn cynnwys

gwasanaethau yn y gymuned ac mae angen cynnal sgyrsiau parhaus gyda chyllidwyr y llywodraeth a phartneriaid i sicrhau bod lefel y gwasanaeth yn bodloni'r galw y mae tystiolaeth ohono. Bydd y CHTh yn parhau i lobïo am hyn.

*Argymhelliad 6*

Wrth weithredu argymhelliad 2, gan ei fod yn ymwneud â phlant a phobl ifanc, argymhellir bod y CHTh yn:

a. Hwyluso gyda phartneriaid, llwybrau integredig gyda phartneriaid yn y sectorau statudol a gwirfoddol ym mhob ardal awdurdod lleol i atal a lliniaru effeithiau niwed llinellau cyffuriau, mathau eraill o gamfanteisio ar blant a phobl ifanc a'r rhai sy'n wynebu mwy o risg, megis y rhai sydd wedi bod yn ddioddefwyr cam-drin domestig a thrais rhywiol, yn y system ofal, ar goll o leiaf bum gwaith a/neu'r rhai sydd wedi cael profiadau niweidiol niferus yn ystod eu plentyndod (ACEs). Mae hyn yn cynnwys sicrhau bod proses camu-i-lawr glir a ddeellir yn dda i gynnal canlyniadau da i'r plant a'r bobl ifanc hyn unwaith y bydd mwy o fewnbynnau arbenigol wedi'u cwblhau.
b. Annog datblygiad pellach y sylfaen dystiolaeth am effaith gwaith ataliol gyda phlant a phobl ifanc â phrofiadau niweidiol niferus yn ystod eu plentyndod o ran lleihau troseddu a gwella cyfleoedd bywyd i'r plant a'r bobl ifanc hyn.

*Ymateb*

Bydd y CHTh yn gweithio gyda Bwrdd Cynllunio Ardal Hywel Dda i gynnal Uwchgynhadledd Atal traws-bartneriaeth/traws agendâu ddiwedd hydref 2019. Bydd hyn yn dod â gwaith atal ynghyd gan gynnwys adeiladu gwytnwch, ACES, dulliau gweithredu sy'n seiliedig ar drawma, llinellau cyffuriau a diogelu. Bydd y CHTh hefyd yn ystyried pa gyfleoedd comisiynu ar y cyd sy'n bodoli gyda Byrddau Cynllunio Ardal yn enwedig o ran yr agenda atal ar gyfer pobl ifanc. Mae'n bosibl y bydd ymarferion ailgomisiynu yn 2019/20 yn rhoi'r cyfle i ad-drefnu dulliau a modelau ariannu presennol. Gweler argymhelliad 2 ynghylch parhad y contract i gefnogi pobl ifanc sydd ar goll ac archwilio cymorth ar gyfer anghenion ehangach dioddefwyr ifanc.

Mae'r CHTh yn comisiynu'r pedwar Tîm Troseddwyr Ifanc ar draws ardal yr Heddlu i ddarparu gwasanaethau atal i'r rhai sydd mewn perygl o droseddu.

Mae hyn yn cynnwys cymorth academaidd i sefydlu sylfaen dystiolaeth a chanlyniadau mesuradwy.

*DIWEDDARIAD 2020:*
Mae SCHTh yn parhau i weithio gyda phartneriaid Byrddau Cynllunio Ardal mewn perthynas ag atal. Yn Nyfed yn arbennig, mae swydd cydlynydd atal newydd yn mapio'r ddarpariaeth bresennol ar draws yr ardal. Mae hyn yn gysylltiedig ag adolygiad gan gydlynydd trais difrifol a throseddau trefnedig (SVOC) Dyfed-Powys o waith ymyrraeth gynnar ac atal yn ardal yr Heddlu. Bydd y ddau adolygiad hyn yn llywio cynllunio a chomisiynu gwasanaethau yn y dyfodol.

Fel rhan o'r cyllid grant 3 blynedd a ddarperir gan y CHTh i dimau Troseddwyr Ifanc yn ardal yr Heddlu, mae gwaith yn cael ei wneud gyda Phrifysgol Aberystwyth i fesur llwyddiant y gwaith atal a wneir gyda phobl ifanc sydd mewn perygl o droseddu. Bydd hyn yn cysylltu â Chynllun Braenaru Atal y Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid a bydd yn llywio buddsoddiad yn y dyfodol. Mae SCHTh hefyd yn cynrychioli Comisiynwyr Heddlu a Throseddu Cymru ar grŵp gorchwyl a gorffen gyda Chymdeithas Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a'r Bwrdd Cyfiawnder Ieuenctid i sefydlu arfer gorau mewn perthynas â llywodraethu ac ariannu perthnasoedd rhwng Comisiynwyr yr Heddlu a Throseddu a Thimau Troseddwyr Ifanc ledled Cymru a Lloegr.

Ar hyn o bryd mae’r CHTh yn archwilio nifer o gyfleoedd cydgomisiynu gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol yn dilyn rhaglen waith Cryfhau'r Gwasanaeth Prawf i ailsefydlu rheolaeth troseddwyr o dan ddarpariaeth statudol. Mae hyn yn cynnwys ymyrraeth gynnar a chyfleoedd atal.

### *Argymhelliad 7*
Wrth weithredu argymhelliad 2, gan ei fod yn ymwneud â chamddefnyddio sylweddau ac alcohol cyfiawnder troseddol, argymhellir bod y CHTh yn gweithio gyda Byrddau Cynllunio Ardal (BCAau) a byrddau iechyd i ddatblygu un dull ar gyfer Dyfed-Powys. Mae ystyriaethau allweddol yn cynnwys:

a. Sicrhau mwy o ecwiti a chysondeb wrth gyflenwi ar draws y rhanbarth.

b. Cynnal dulliau arfer gorau megis gweithwyr cyswllt carchardai ac integreiddio lle bynnag y bo modd i wasanaethau camddefnyddio sylweddau ac alcohol cyffredinol.
c. Ennill manteision graddfa i sicrhau mwy o werth am arian.

*Ymateb*
Mae’r CHTh eisoes yn ceisio hyrwyddo cyfleoedd lle gellir cyflawni darpariaeth ar draws yr Heddlu. Codwyd hyn gyda Byrddau Cynllunio Ardal Dyfed a Phowys yn y gorffennol ond nid yw contractau wedi'u halinio eto i ganiatáu ar gyfer comisiynu gwasanaethau ar y cyd. Mae’r Cyfarwyddwr Comisiynu wedi bod yn gweithio gyda Gwasanaethau Carchardai a Phrawf Ei Mawrhydi (HMPPS) i adolygu’r trefniadau presennol a chytunwyd ar gynnig ynghylch ailgomisiynu gwasanaethau trin Dyfed ar hyn o bryd er mwyn cyd-fynd â dyddiadau terfyn contractau eraill ledled Cymru. Byddai hyn yn caniatáu i drafodaethau Cymru gyfan gael eu datblygu o fewn y ddwy flynedd nesaf.

*Cam Gweithredu: Y CHTh i sicrhau cynrychiolaeth barhaus ar y ddau BCA, i gefnogi pob cyfle ar gyfer trefniadau gweithio ar y cyd ac i adolygu lefelau buddsoddi presennol.*

*DIWEDDARIAD 2020:*
Mae’r CHTh wedi bod yn ddylanwadol wrth lywio ail-gomisiynu diweddar yn Nyfed i ail-lunio’r fanyleb, ei halinio â Deddf Cenedlaethau’r Dyfodol a chyflawni dulliau arloesol a thrawsnewidiol o fynd i’r afael â heriau gan gynnwys:

- Cydnabod effaith Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod, sut i nodi a mynd i'r afael â hyn ymhlith y garfan driniaeth
- Ymwybyddiaeth o'r gwahanol lwybrau camfanteisio megis llinellau cyffuriau a ffactorau risg eraill ar gyfer y rhai bregus mewn cymunedau
- Ystyried y teulu’r unigolyn, gan sicrhau y darperir cymorth ehangach a nodi a rheoli materion/risgiau diogelu
- Hyrwyddo buddion cymunedol cadarnhaol a sicrhau lles cymunedau yn unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau’r Dyfodol (Cymru) 2015
- Defnyddwyr gwasanaeth â phroblemau camddefnyddio sylweddau ac iechyd meddwl sy'n cyd-ddigwydd

Mae cryn dipyn o waith i'w wneud o hyd i'r gwaith hwn ac ar hyn o bryd dim ond am gyfnod contract cychwynnol o 2 flynedd y mae’r CHTh wedi ymrwymo cyllid. O fewn yr amser hwn, mae'n ofynnol gwerthuso'r gwasanaeth yn barhaus er mwyn llywio datblygiadau yn y dyfodol o ran gwasanaethau atal yn benodol, ynghyd â data perfformiad a chanlyniadau manwl. Bydd angen i werthusiad a gwaith cysylltiedig y BCA hefyd ddangos bod gwerth y contract yn briodol ac yn seiliedig ar dystiolaeth, gyda fformiwla/rhesymeg ariannu gysylltiedig ar gyfer cyfanswm y gwerth a’r dosraniad rhwng partneriaid. Dylai hyn gynnwys ystyriaeth o’r canlyniadau a gyflawnir gan y contract hwn a chan brosiectau a gwasanaethau eraill a gomisiynir gan y BCA a sut mae’r rhain yn cyfrannu at flaenoriaethau craidd y BCA a phartneriaid.

Bydd BCA Powys yn fuan yn dechrau ar yr un broses ailgomisiynu ac mae SCHTh Dyfed-Powys yn bwriadu alinio elfennau cyfiawnder troseddol y cynllun cyn belled ag y bo modd gyda Dyfed er mwyn sicrhau cysondeb darpariaeth ar draws ardal yr Heddlu.

Mae'r ddwy fanyleb hyn yn cynnwys darparu gwasanaethau a gaiff eu hadlewyrchu ledled Cymru ac felly mae hyn yn gyfle i ailstrwythuro'r trefniadau comisiynu'n sylweddol ac alinio'n agosach ar draws Byrddau Cynllunio Ardal, yn enwedig ar gyfer y partneriaid cyfiawnder troseddol. Bydd hyn hefyd yn rhan o'r trafodaethau gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) ynghylch cyfleoedd posibl ar gyfer cydgomisiynu.

## *Atodiad 4: Adolygiad Annibynnol o Wasanaethau Dioddefwyr*

Ym mis Tachwedd 2019 cynhaliwyd adolygiad annibynnol o Wasanaeth Dioddefwyr a Thystion Goleudy yn Nyfed-Powys. Isod mae’r argymhellion allweddol, gydag ymateb gan Heddlu Dyfed-Powys a sylwadau pellach wedi’u hychwanegu o safbwynt y CHTh. Mae’r tabl hefyd yn nodi’r camau gweithredu a’r trefniadau llywodraethu parhaus sydd eu hangen i fwrw ymlaen â’r argymhellion:

| **Argymhelliad** | **Ymateb** | **Llywodraethu / diweddariadau parhaus sydd eu hangen** |
|---|---|---|
| 1 Dylid cryfhau'r trefniadau arweinyddiaeth a llywodraethu presennol drwy benodi arweinydd lefel uwch ar gyfer dioddefwyr yn yr heddlu | Argymhelliad wedi ei gefnogi a'i fabwysiadu. Gweler Cylch Gorchwyl newydd ar gyfer Cyfiawnder Troseddol ac Ymchwiliadau gyda'r Uwcharolygydd wedi'i benodi'n arweinydd Dioddefwyr a Thystion.<br>CJ and Investigations TOR \ CJ and Investigations TOR \ | Dim |
| 2 Dylai’r broses ar gyfer asesiad cychwynnol o anghenion dioddefwr fod yn agwedd graidd ar y broses cofnodi trosedd gychwynnol a gynhelir gan swyddogion a staff rheng flaen. | Argymhelliad wedi ei gefnogi a'i fabwysiadu. Ar hyn o bryd bydd swyddogion sy'n mynychu lleoliad i siarad yn uniongyrchol â dioddefwr yn cwblhau asesiad o anghenion cychwynnol ac yn gofyn cyfres o gwestiynau mewn perthynas â chefnogaeth Goleudy.<br><br>Mae'r cwestiynau hyn wedi'u cynllunio gan gymryd yn ganiataol y bydd cymorth **yn** cael ei gynnig. | Dim |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae newidiadau diweddar wedi'u gwneud felly os mae swyddog o'r farn nad oes angen y cymorth hwnnw yna bydden nhw'n cofnodi'r rheswm pam.<br><br>Mabwysiadwyd ateb i'r System Rheoli Troseddau a Therfynellau Data Symudol (mae'r manylion ar hyn o bryd ym Mwletinau'r Heddlu). | |
| 3 Dylai rolau a chyfrifoldebau'r Swyddogion Gofal Dioddefwyr a Chymorth Dioddefwyr presennol gael eu halinio i un rôl Gydlynydd Gofal Dioddefwyr | Argymhelliad heb ei gefnogi.<br><br>Ar hyn o bryd, mae 3 rôl yn Goleudy:<br>Swyddogion Gofal Dioddefwyr (VCOs) – Gradd C (4 swydd llawn amser)<br>Swyddogion Gofal Tystion (WCOs) – Gradd C (3.5 swydd llawn amser)<br>Swyddogion Cymorth Dioddefwyr (VSOs) – Gradd D (6.15 swydd llawn amser)<br><br>Mae'r Swyddogion Gofal Dioddefwyr wedi'u lleoli yn y pencadlys a byddant yn cyflawni swyddogaeth brysbennu. Mae hyn ar ffurf system RAG lle caiff anghenion unigol eu hasesu a'u blaenoriaethu.<br><br>Mae'r Swyddogion Cymorth Dioddefwyr wedi'u lleoli o amgylch ardal yr Heddlu ac yn darparu gofal a chymorth mwy manwl. Mae eu lledaeniad daearyddol hefyd yn caniatáu iddynt allu cynnal ymweliadau personol. | Methodoleg cyswllt i barhau i gael ei hadolygu, i'w thrafod mewn cyfarfodydd rheoli contractau chwarterol |

| | | |
|---|---|---|
| | O ganlyniad i gyfyngiadau COVID, nid yw ymweliadau cartref wedi bod yn bosibl a defnyddiwyd dulliau cysylltu eraill (Skype, Zoom ac ati) lle’n addas ac yn bosibl. Mae hyn hefyd yn caniatáu ar gyfer mwy o gysylltiadau posibl gan nad oes angen teithio. Fodd bynnag, ni fydd gan bob dioddefwr fynediad at y feddalwedd a'r offer gofynnol ac mae'n bwysig bod gan ddioddefwyr ddewis o opsiynau cymorth.<br><br>Bydd y Swyddogion Gofal Tystion yn cysylltu â’r holl ddioddefwyr a thystion ar ôl y gwrandawiad llys cyntaf (lle bo angen) ac yna’n darparu cyngor a chymorth drwy’r agwedd hon ar y daith.<br><br>Er mwyn cyfuno’r rolau hyn byddai angen i’r Swyddogion Cymorth Dioddefwyr gynorthwyo i gyflawni’r dyletswyddau brysbennu o bell ac yna i’r Swyddogion Gofal Dioddefwyr gael eu hyfforddi yn rôl y Swyddogion Cymorth Dioddefwyr. Byddai hyn hefyd yn gofyn am weithredu gradd uwch ar gyfer y 4 swydd Swyddogion Gofal Dioddefwyr llawn amser.<br><br>Mae'r strwythur yn cymharu'n dda â model canolbwynt tebyg a ddefnyddiwyd yn Avon a Gwlad yr Haf. | |

| | | |
|---|---|---|
| | Sylwer: roedd trafodaethau ychwanegol yn y Bwrdd Plismona yn canolbwyntio ar yr angen i adolygu'r fethodoleg gyswllt, sydd bellach wedi'i chwblhau. | |
| 4 Dylai nodi, datblygu a darparu cyfiawnder adferol fod yn gyfrifoldeb i staff Goleudy | Argymhelliad heb ei gefnogi.<br>Ar hyn o bryd nid oes gan Goleudy y gallu na'r arbenigedd i ymgymryd ag adnabod, datblygu a darparu Cyfiawnder Adferol.<br><br>Ar hyn o bryd, dim ond 35 achos o Gyfiawnder Adferol y flwyddyn sydd yn Nyfed-Powys a gall hyn fod yn rhannol oherwydd gwybodaeth a dealltwriaeth o'r buddion. Dyma lle bydd gan Goleudy rôl i'w chwarae gan eu bod mewn sefyllfa lle gallant ymgysylltu a chynghori dioddefwyr ar y manteision posibl a gwneud hynny ar gyfnod addas o'r broses ymchwilio.<br><br>Mae'r agwedd hon yn cael ei chydnabod gan reolwyr Goleudy sydd wedi paratoi hyfforddiant yn y pwnc ar gyfer y tîm ond, fel gydag elfennau eraill o'r rhaglen hyfforddi, mae wedi cael ei gohirio oherwydd Covid.<br><br>Nodyn SCHTh: roedd trafodaethau ychwanegol yn y Bwrdd Plismona yn canolbwyntio ar y cyfleoedd comisiynu ar y cyd gyda'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol (NPS) yn y dyfodol. Mae Cyfiawnder Adferol yn flaenoriaeth i SCHTh yn y trafodaethau gyda'r NPS ac mae potensial ar gyfer datrysiad Cymru | I'w symud ymlaen fel blaenoriaeth o dan y gweithgor ar gyfer comisiynu ar y cyd rhwng y Comisiynwyr a'r Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol |

| | | |
|---|---|---|
| | Gyfan wedi'i deilwra i ardaloedd lleol. Mae hyn yn flaenoriaeth ar gyfer dechrau 2021.<br><br>Mae gofyniad i Gyfiawnder Adferol gael ei ddarparu gan ddarparwr achrededig sy'n broses hir a chostus y byddai angen ei hystyried hefyd. | |
| 5. Dylai recriwtio, datblygu a goruchwylio gwirfoddolwyr Goleudy fod yn gyfrifoldeb rôl oruchwylio enwebedig o fewn tîm Goleudy | Wedi’i gytuno’n rhannol.<br>Mae gan yr Heddlu gydlynydd gwirfoddolwyr a all gynorthwyo gyda recriwtio gwirfoddolwyr. Fodd bynnag, mae angen sefydlu pa rôl y gallai darpar wirfoddolwyr ei chyflawni. Mae'r rheolwr wedi dweud y gallai fod cyfleoedd ar gyfer rolau mewn digwyddiadau megis diwrnodau agored lle gellid arddangos rôl Goleudy.<br><br>Opsiwn arall fyddai datblygu cysylltiadau â gwasanaethau cyfeillio sydd eisoes wedi'u sefydlu y gellid eu defnyddio i ddarparu cymorth tymor hwy ar ôl i wasanaeth Goleudy orffen gweithio gyda dioddefwyr. Ceisir cyfleoedd i archwilio'r defnydd o wasanaethau gwirfoddol sy'n bodoli eisoes. Wrth symud ymlaen, bydd y cyfleoedd hyn yn cael eu trafod ymhellach yn yr is-grŵp Dioddefwyr a Thystion newydd.<br><br>Noder: Croesawyd hyn mewn trafodaethau fel cynnydd cadarnhaol a byddai’n cynorthwyo gyda gofal dioddefwyr ymlaen, gan ganiatáu i | Bydd defnyddio gwirfoddolwyr yn rhan o archwiliad blynyddol o wasanaethau a gomisiynir.<br><br>Rheolwr Goleudy i gysylltu â chydlynydd gwirfoddolwyr yr Heddlu i sicrhau bod Goleudy yn cael ei gynnwys o fewn prosesau recriwtio a chynllunio ehangach yr Heddlu. |

| | | |
|---|---|---|
| | Goleudy gamu i ffwrdd ar ôl i'r gofal argyfwng gael ei ddarparu. | |
| 6 Dylid adolygu rolau a chyfrifoldebau unrhyw wirfoddolwyr gwasanaeth i sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion a blaenoriaethau'r model gwasanaeth newydd a sgiliau a phrofiad darpar wirfoddolwyr | Fel y soniwyd uchod, dylid ystyried defnyddio gwirfoddolwyr nad ydynt ond yn gwirfoddoli gyda Goleudy. | Fel uchod |
| 7 Dylid disodli'r system Olrheiniwr Canolfan Achos (OCA) gyda datrysiad wedi'i gynllunio i ddiwallu anghenion gwasanaeth cymorth i ddioddefwyr cyfoes | Wedi'i gytuno'n rhannol.<br>Gwnaed gwelliannau i'r system gan TG yn ddiweddar ond mae pryderon am weithredu NICHE. Ar hyn o bryd mae'r atgyfeiriadau'n dod i'r OCA trwy'r System Rheoli Troseddau bresennol ac o'r system ymddygiad gwrthgymdeithasol, MAVIS.<br><br>Mae angen gwneud rhagor o waith i ganfod pa system newydd fyddai'n addas i'w gweithredu ochr yn ochr â NICHE, pa fanteision y byddai'r system hon yn eu cael dros y OCA presennol a faint fyddai'r gost.<br><br>Mae'r Rheolwr Cynnyrch a Rhaglen TGCh yn ymwybodol o'r gofynion a bydd yn gweithio gyda NICHE a Goleudy i sicrhau bod eu hanghenion yn cael eu diwallu a bod unrhyw integreiddio gyda NICHE yn cael ei ystyried a'i symud ymlaen ar yr amser priodol. | Trafodaethau parhaus trwy brosiect System Rheoli Cofnodion.<br><br>I'w nodi o dan eitem sefydlog ar yr agenda rheoli perfformiad is-grŵp Dioddefwyr a Thystion |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r rheolwr hefyd wedi nodi y bydd y tîm yn trafod â NICHE ynghylch y posibilrwydd y gallent ddatblygu modiwl addas i ddarparu'r swyddogaethau gofynnol, ond nid yw hyn wedi'i gadarnhau na'i gwblhau. | |
| 8 Dylai'r gwasanaeth roi blaenoriaeth i ddatblygu partneriaethau amlasiantaethol cryf, wedi'u cydleoli lle bo'n bosibl er mwyn galluogi cydgysylltu cymorth yn well, lleihau dyblygu a darparu taith fwy di-dor i ddioddefwyr a goroeswyr. | Wedi'i gytuno a'i weithredu.<br>Mae tystiolaeth ar gael o gydweithio rhwng Goleudy ac asiantaethau eraill (statudol ac anstatudol) sydd wedi digwydd ers gweithredu'r gwasanaeth. Mae enghreifftiau'n cynnwys:-<br>• Mae partneriaeth waith yn bodoli gyda'r gwasanaeth IDVA ac ISVA gyda chyfarfodydd misol wedi'u trefnu i drafod unrhyw faterion a nodi unrhyw feysydd y gellir eu gwella.<br>• Mae gan Calan DVS a Threshold hefyd berthynas waith dda gyda'r holl staff gweithredol ac mae hyn wedi'i ddangos trwy drafodaethau dyddiol (MARAC).<br>• Mae perthynas gadarnhaol yn bodoli rhwng CAWS a Goleudy yn strategol ac yn weithredol. Mae trefniant desg boeth yn Pencadlys ar gyfer CAWS sy'n darparu manteision i'r ddau ac mae'n dystiolaeth o rai cyd-leoliad. Mae cyfleoedd cydleoli pellach yn debygol o fod yn destun ystyriaethau gwaith ehangach ar ôl Covid. | Dim |


| | | |
|---|---|---|
| | • Dewis/Choice – cyswllt rheolaidd ers iddynt gael eu sefydlu yn 2017 pan grëwyd Cytundeb Rhannu Gwybodaeth Bersonol Cymru (WASPI) ar gyfer rhannu data gyda'u IDVA yn mynychu cyfarfodydd tîm ac yn ymweld â'r hwb.<br><br>Mae cysylltiadau hefyd wedi'u sefydlu gyda nifer eang o reolwyr dioddefwyr a thystion mewnol yn ogystal â heddluoedd cyfagos. Mae pob un wedi'i anelu at rannu arfer gorau a cheisio cyngor.<br><br>Mae Cymorth i Ddioddefwyr yn parhau i ddal y contract Troseddau Casineb, felly mae cysylltiad agos wedi'i gynnal rhwng y ddau ddarparwr. Mae desg boeth yn parhau i gael ei chadw o fewn y ganolfan ar gyfer aelodau staff VS gweithredol. | |
| 9 Fel rhan o weithredu model diwygiedig dylai'r heddlu a SCHTh ddatblygu fframwaith perfformiad sy'n canolbwyntio ar ddwy elfen allweddol. Canlyniadau gorfodol y Weinyddiaeth Gyfiawnder a mesurau perfformiad a chanlyniadau sy'n cael eu | Yr argymhelliad wedi'i gefnogi.<br>Mae angen eglurder ar ddata perfformiad – beth sydd angen ei gofnodi, ei gynhyrchu a sut i echdynnu. Noder: Cadarnhawyd bod yr eglurder hwn yn ymwneud â'r data perfformiad a dynnwyd gan Adran Cudd-wybodaeth yr Heddlu (FIB) a threfniadau cysylltiedig. Roedd ymrwymiad gan Brif Swyddogion y dylai'r cymorth a ddarperir gan FIB gael ei gydnabod ar sail fwy ffurfiol a'i gynnwys yn y llwyth | I'w nodi o dan eitem sefydlog ar yr agenda rheoli perfformiad is-grŵp Dioddefwyr a Thystion. |

| | | |
|---|---|---|
| cydgynhyrchu â dioddefwyr troseddau. | gwaith gyda chynlluniau wrth gefn yn eu lle i sicrhau bod y data ar gael bob amser.<br><br>Mae angen mesur y perfformiad yn erbyn 4 mesur canlyniad allweddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder ar gyfer ymdopi ac adennill:<br>a) Lles – Gwell iechyd a lles<br>b) Ymdopi – Gallu ymdopi'n well ag agweddau o fywyd bob dydd<br>c) Diogelwch - Mwy o deimlad o ddiogelwch<br>d) Grymuso – Yn fwy gwybodus ac wedi grymuso i weithredu.<br><br>Mae angen i'r arolygon cwestiwn ymadael adlewyrchu'r mesurau allweddol hyn. Bydd hyn yn sicrhau bod dioddefwyr yn ymwybodol o'r nodau y mae Goleudy'n ceisio eu cyflawni gyda nhw o'r cychwyn cyntaf ac nad oes unrhyw ddryswch na phryderon o ran rheoli disgwyliadau.<br><br>Nid oedd yr holiadur ymadael blaenorol yn cyd-fynd yn llwyr â'r mesurau canlyniad ac, ar ôl ymgynghori â rheolwr Goleudy, mae'r holiadur wedi'i ail-ddylunio.<br><br>New Goleudy Exit Questionnaire.doc | |

| | | |
|---|---|---|
| 10 Dylai'r gwasanaeth adolygu ei gwestiynau Boddhad Defnyddwyr Gwasanaeth Arolwg Boddhad yr heddlu a ofynnir er mwyn sicrhau y gallant gael, gan ddioddefwyr, adborth ansoddol a all lywio gwelliant gwasanaeth | Argymhelliad wedi'i gefnogi a'i weithredu. Fel y nodir ym mhwynt 9 uchod. Mae'r cwestiynau ymadael newydd yn caniatáu adborth ansoddol gan ddioddefwyr. Bydd yr adborth o'r ymatebion hyn yn rhan o ddatganiad y Weinyddiaeth Gyfiawnder i SCHTh a bydd adborth perthnasol yn destun trafodaeth a gweithredu ar gyfer is-grwpiau Dioddefwyr a Thystion yr Heddlu a'r Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol. | I'w nodi o dan is-grŵp Dioddefwr a Thystion. |

Darparodd yr adolygiad hefyd rai meysydd i'w gwella ar gyfer gwasanaeth Goleudy, a amlinellir isod eto gydag ymatebion:


| **Maes i'w Wella** | **Ymateb** | **Angen llywodraethu / diweddariadau parhaus** |
|---|---|---|
| 1. Dylai'r heddlu flaenoriaethu recriwtio a chynnal y lefel staffio y cytunwyd arni yn y contract | Argymhelliad wedi'i gefnogi a'i weithredu.<br><br>Roedd y crynodebau presennol ar adeg ysgrifennu i'w llenwi maes o law. Fodd bynnag, mae hwn yn ddarlun teimladwy ac mae'r tîm yn profi cyfraddau uchel o drosiant.<br><br>Mae SCHTh a'r PGC wedi cytuno'n ddiweddar i swydd VCO a WCO ychwanegol a fydd dros dro am flwyddyn. Mae cyfweliadau'n parhau ar gyfer y swyddi gwag hyn.<br><br>Mae'r uchod i gyd yn gadarnhaol i'r adran, fodd bynnag, bydd yr aelodau newydd angen cyfnod | Parhaus fel rhan o gyfarfodydd rheoli contractau.<br><br>Mae'n bosibl y bydd angen trafodaeth tymor hwy ar ffyrdd arfaethedig o liniaru'r cyfraddau trosiant uchel. |

| | | |
|---|---|---|
| | hyfforddi ac addasu cychwynnol ar gyfer cymhlethdodau eu rolau newydd.<br><br>Sylwer: roedd y trafodaethau'n cynnwys sut y byddai methodoleg gyswllt ddiwygiedig yn helpu gyda phwysau adnoddau. Mae'n bosibl y bydd angen trafodaeth tymor hwy ar ffyrdd arfaethedig o liniaru'r cyfraddau trosiant uchel. | |
| 2. Dylai Goleudy roi cynllun ar waith i ddeall a gwella'r canlyniadau i ddioddefwyr (Mae cyfran sylweddol o ddioddefwyr yn adrodd am ddirywiad yn hytrach na gwelliant yn erbyn pedwar mesur canlyniadau ymdopi ac adennill allweddol y Weinyddiaeth Gyfiawnder) | Cytunwyd ar yr argymhelliad ond gall y maes hwn i'w wella fod oherwydd diffyg data. Mae'r pryder hwn wedi'i drafod gyda'r rheolwr gwasanaeth gan fod y wybodaeth ar y graff yn Siart 2 yn amlygu tuedd sy'n peri pryder.<br><br> | Is-grŵp Dioddefwyr a Thystion o dan eitem sefydlog rheoli perfformiad |

| | | |
|---|---|---|
| | Mae'r data'n dangos bod cynnydd yn nifer y dioddefwyr sy'n adrodd am ddirywiad yng nghanlyniadau ymdopi ac adennill y Weinyddiaeth Gyfiawnder **ar ôl** iddynt dderbyn cefnogaeth Goleudy. h.y. maent yn teimlo'n waeth ar ôl ymyrraeth Goleudy na phan oeddent yn ddioddefwr i ddechrau.<br><br>Yn amlwg mae hyn yn bryder sylweddol ac mae trafodaethau wedi'u cynnal rhwng rheolwr Goleudy a'r dadansoddwr troseddau ynghylch dehongli'r data.<br><br>Isod mae'r datganiad data perfformiad diweddaraf, y mae ei fformat wedi'i newid gan y dadansoddwr data i ddangos y newidiadau canfyddedig y mae dioddefwyr yn eu teimlo ers eu hasesiad cychwynnol ac yna yn ystod eu cyfweliad ymadael. | |

**16. Distance travelled by victims from initial assessment to exit**

Of the Outcome Stars undertaken on completion during this quarter – please see below the mapped out average 'distance travelled' for each category.




The Outcome Star scoring system that is used with our victims is a 10 - 1 sliding scale:

1 indicating = Poor/Negative/Complex entrenched issues.

10 indicatimng = Excellent/Positive/No issues

PDF

Goleudy Performance Data -

Mae'r siart uchod yn rhoi arwydd clir bod y dioddefwr, yn y cyfweliad ymadael (oren), wedi gweld gwelliannau yn erbyn canlyniadau'r Weinyddiaeth Gyfiawnder ar ôl iddynt dderbyn cymorth o'i gymharu â chynt, ac yn fuan ar ôl iddynt ddod yn ddioddefwr. Dyma'r hyn y dylid ei ddisgwyl ac ni fyddai'n debygol o fod wedi'i godi gan awdur yr adolygiad pe bai wedi'i weld yn y fformat hwn i ddechrau.

Anogir craffu ac adolygu parhaus i sicrhau bod y data diweddaraf yn gyson. Bydd hyn yn destun eitem sefydlog ar yr agenda ar gyfer yr is-grŵp Dioddefwyr a Thystion newydd lle bydd y data 'seren ganlyniad' yn parhau i gael ei archwilio.

| | | |
|---|---|---|
| 3 Dylai'r gwasanaeth ddatblygu a chynnal Dadansoddiad o Anghenion Hyfforddi staff. Dylai buddsoddiad mewn hyfforddi a datblygu staff ganolbwyntio ar sgiliau a galluoedd craidd y tîm yn hytrach na darpariaeth gwasanaeth pwrpasol neu arbenigol | Wedi'i gytuno a'i weithredu.<br>Mae yna gynllun cynhwysfawr ar gyfer hyfforddi staff. Mae'r hyfforddiant hwn yn cynnwys cyfuniad o ddarpariaeth fewnol gan adrannau arbenigol fel y Tîm Troseddau Economaidd yn ogystal â darparwyr allanol ar gyfer (fel yr awgrymwyd yn yr adolygiad) Ymarfer sy'n Wybodus ynghylch Trawma.<br><br>Y gofyniad yma yw proses gofnodi fwy ffurfiol y dylid ei chwblhau yn ystod y broses Proffil Datblygu ac Asesu. Mabwysiadwyd hyn yn y broses Proffil Datblygu ac Asesu ddiweddaraf ac mae'n sicrhau y gall y rheolwr llinell drafod yr anghenion unigol a amlygwyd gan staff ochr yn ochr â'r amserlen hyfforddi a baratowyd. | Cynlluniau hyfforddi i'w hystyried mewn cynlluniau archwilio gwasanaethau a gomisiynir |
| 4 Dylai Goleudy chwilio am a sicrhau cyfleoedd datblygu cydweithredol gyda phartneriaid lleol a rhanbarthol a dylid archwilio hyfforddiant a datblygiad cyffredinol fel Ymarfer sy'n Wybodus ynghylch Trawma | Yr argymhelliad wedi'i gefnogi.<br>Mae hyfforddiant Ymarfer sy'n Wybodus ynghylch Trawma wedi cael ei drefnu.<br><br>Mae'r gyllideb ar gyfer hyfforddiant staff yn cael ei rheoli'n ofalus gan fod darparwyr allanol yn ddrud a dyna pam yr argymhelliad i archwilio cyfleoedd i rannu hyfforddiant gyda darparwyr gwasanaeth eraill fel New Pathways.<br><br>Fel y nodwyd yn flaenorol, mae amserlen hyfforddi gynhwysfawr wedi'i datblygu ar gyfer aelodau'r tîm ond wedi'i chanslo dros dro | Cynlluniau hyfforddi i'w hystyried mewn cynlluniau archwilio gwasanaethau a gomisiynir |

| | | |
|---|---|---|
| | oherwydd Covid. Cytunir mewn egwyddor ar yr awgrym ar gyfer datblygiad cydweithredol pan fydd ailddechrau amgylchiadau mwy normal yn caniatáu. | |
| 5 Dylai Goleudy adolygu rolau a chyfrifoldebau'r garfan bresennol o wirfoddolwyr i sicrhau eu bod yn cael eu defnyddio a'u lleoli yn unol â pholisi'r heddlu a chanllawiau cenedlaethol. Un risg a nodwyd oedd y dywedir bod gwirfoddolwyr yn cyflawni'r un rôl a swyddogaeth â staff cyflogedig a allai fod yn amhriodol | Wedi'i gytuno'n rhannol.<br>Mae awdur yr adolygiad yn nodi'n gywir nad yw'n addas i wirfoddolwyr ymgymryd â rôl VSO. Mae hon yn rôl gyflogedig a byddai'n amhriodol hyfforddi gwirfoddolwyr i gyflawni'r un tasgau â gweithiwr cyflogedig.<br><br>Bu rhywfaint o feirniadaeth, gan yr awdur, ynghylch rai gwirfoddolwyr sy'n cyflawni'r swyddogaeth hon. Mae rheolwyr Goleudy wedi ymrwymo na fydd unrhyw wirfoddolwyr yn y dyfodol yn cael eu hyfforddi i gyflawni'r un swyddogaethau ac ni chodwyd unrhyw faterion gan unrhyw gymdeithasau staff ynghylch y rhai sy'n gwasanaethu ar hyn o bryd. | Bydd defnyddio gwirfoddolwyr yn rhan o archwiliad blynyddol o wasanaethau a gomisiynir.<br><br>Rheolwr Goleudy i gysylltu â chydlynydd gwirfoddolwyr yr Heddlu i sicrhau bod Goleudy yn cael ei gynnwys o fewn prosesau recriwtio a chynllunio ehangach yr Heddlu. |
| 6 Dylai'r Gwasanaeth fanteisio ar gryfder ei safle unigryw a datblygu a gweithredu ymgyrch marchnata/cyfathrebu mewnol ac allanol i godi ymwybyddiaeth o'r Gwasanaeth a 'chynnig Goleudy' | Yr argymhelliad wedi'i gefnogi.<br>Mae'r adolygiad yn cydnabod bod ymwybyddiaeth o wasanaethau'r Goleudy gan swyddogion rheng flaen. (dywedodd 58% o'r ymatebwyr i'w harolwg yn ymwneud â chymorth Goleudy eu bod wedi cael gwybodaeth)<br><br>Mae angen gwneud mwy i wella ymwybyddiaeth a dealltwriaeth swyddogion o'r hyn y gall Goleudy ei wneud dros ddioddefwyr a throstynt | Cyhoeddusrwydd a marchnata i fod yn ffocws parhaus i dimau cyfathrebu'r Heddlu a SCHTh |

| | | |
|---|---|---|
| | eu hunain. Ar wahân i bodlediad yn ymwneud â'r gwasanaethau ymddygiad gwrthgymdeithasol y mae Goleudy yn eu cynnig, ychydig o wybodaeth sydd ar wefan yr Heddlu.<br><br>Mae'r pecynnau gwybodaeth newydd yn cynnwys 2 dudalen o wybodaeth benodol am Goleudy a byddant wrth law i swyddogion pan fyddant mewn cysylltiad uniongyrchol wyneb yn wyneb â dioddefwyr. Er ei fod wedi'i greu'n bennaf ar gyfer y dioddefwyr eu hunain, mae'r cynnwys hefyd wedi'i baratoi i gynorthwyo swyddogion i wybod pa wasanaethau sydd ar gael. Mae strategaeth gyfathrebu yn cael ei datblygu i hysbysu swyddogion o'r pecynnau, pryd y dylid eu defnyddio a pha wybodaeth sydd ynddynt. | |
| 7 Dylai arweinwyr Goleudy feithrin a datblygu perthnasoedd cryfach gyda darparwyr gwasanaethau dioddefwyr lleol | Wedi'i gytuno ond wedi'i sefydlu eisoes. Gweler Pwynt 8 yn yr Argymhellion.<br><br>Cyfleoedd parhaus i ddatblygu cysylltiadau ymhellach â darparwyr gwasanaeth eraill gan gynnwys gwasanaethau cymorth i ddioddefwyr heddluoedd cyfagos, ar gyfer cyfleoedd hyfforddi a rhannu arfer gorau. | Dim |
| 8 Dylai Goleudy a Swyddog Diogelu Data'r Heddlu adolygu'r trefniadau presennol ar gyfer diogelu data, caniatâd, Optio i | Cytunwyd a gweithredwyd.<br>Mae'r gwaith hwn wedi'i wneud drwy reolwr Goleudy a Swyddogion Diogelu Data yr heddlu. Mae'n amlwg nad oes unrhyw ofyniad i | Dim |

| | | |
|---|---|---|
| Mewn/Optio Allan a rhannu gwybodaeth yng nghyd-destun cyngor Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth a roddir i wasanaethau cymorth i ddioddefwyr er mwyn sicrhau nad ydynt yn eu cyflwyno fel rhwystr i bartneriaethau aml-asiantaeth effeithiol a darparu cymorth i ddioddefwyr. Dylai Goleudy hefyd ddatblygu a chyhoeddi Polisi Preifatrwydd yn benodol ar gyfer y gwasanaeth | ddioddefwyr roi caniatâd i'w gwybodaeth gael ei rhannu â Goleudy gan fod Goleudy yn wasanaeth mewnol i'r Heddlu.<br>Mae’n ofynnol serch hynny i gael caniatâd er mwyn galluogi Goleudy i rannu manylion y dioddefwyr gydag asiantaethau allanol. Mae'r arfer hwn bellach ar waith ac mae'n unol â chyngor Swyddfa'r Comisiynydd Gwybodaeth. Nid oes unrhyw rwystrau a nodwyd sydd wedi'u codi gan asiantaethau partner o ran y protocolau rhannu data sydd ar waith.<br>Mae'r wybodaeth wedi'i rhaeadru i'r holl swyddogion trwy'r hysbysiad sydd wedi'i arddangos ar Faner bresennol yr Heddlu.<br>http://dppi2/media/3auj51su/cms-goleudy-alert.pdf | |
| 9 Dylai Goleudy, ar y cyd â’r heddlu, adolygu’r broses bresennol o gofnodi ac asesu risg ymddygiad gwrthgymdeithasol i sicrhau ei fod yn bodloni ei rwymedigaethau cytundebol a bod dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gallu manteisio ar y cynnig gofal, ymdopi ac adferiad gan Goleudy. | Wedi’i gytuno a’i weithredu.<br>Mae Goleudy dan gontract i ymdrin ag atgyfeiriadau Ymddygiad gwrthgymdeithasol Uchel a Chanolig. Ar hyn o bryd ni fydden nhw'n gallu gwasanaethu'r galw am atgyfeiriadau Risg Isel hefyd.<br><br>Mae goruchwyliwr Goleudy yn mynychu'r grŵp llywio ymddygiad gwrthgymdeithasol a drefnir gan yr Uned Lleihau Troseddau a Niwed (CaHRU).<br><br>Nid yw'r heddlu ar hyn o bryd yn cydymffurfio â'r Safonau Cofnodi Troseddau Cenedlaethol | Dim |

| | | |
|---|---|---|
| | (NCRS) o ran galwadau ymddygiad gwrthgymdeithasol. Amcangyfrifir bod gan tua 50% o alwadau a gymerir ac a gategoreiddiwyd fel ymddygiad gwrthgymdeithasol droseddau sylweddol y dylid cofnodi troseddau ar eu cyfer. I fynd i'r afael â hyn mae Canolfan Gyfathrebu'r Heddlu wedi cynllunio pecyn hyfforddi o ran adnabod ymddygiad gwrthgymdeithasol yn erbyn cwrs ymddygiad/POA.<br><br>Mae'n amlwg nad oedd y system Ymddygiad Gwrthgymdeithasol MAVIS yn caniatáu i atgyfeiriadau gael eu hanfon ymlaen at y Traciwr Hwb Achos ac nid oedd swyddogion y Tîm Plismona Bro yn ymwybodol o'r broses. Mae atgyweiriad TG wedi'i weithredu gyda set newydd o gwestiynau wedi'i ychwanegu at y system MAVIS yn annog swyddogion i ystyried (a chynnig) cefnogaeth Goleudy yn gliriach. Atgyfnerthwyd hyn trwy wybodaeth a anfonwyd at bob un o’r Timau Plismona Bro.<br><br>Mae’r atgyweiriad hwn, a ddaeth i rym ym mis Awst, wedi gweld cynnydd mewn atgyfeiriadau o 69 yn y chwarter cyntaf i 147 yn yr ail gyda chyfeiriadau mis Awst yr uchaf a gofnodwyd, sef 56. Mae hyn yn arwydd cadarnhaol bod y mater TG blaenorol wedi'i ddatrys.<br><br>Mae'r cydlynydd Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn disgwyl i'r duedd hon barhau ac mae wedi | |

| | | |
|---|---|---|
| | cyfeirio at y ffaith bod dioddefwyr ymddygiad gwrthgymdeithasol yn cael cyfleoedd niferus i ofyn am gymorth wrth i'r cwestiwn MAVIS gael ei ailadrodd, o bryd i'w gilydd, yn ystod yr ymchwiliad. Mae'r tebygolrwydd na fydd dioddefwr Ymddygiad Gwrthgymdeithasol yn gallu cael mynediad at gymorth yn annhebygol felly.<br><br>Mae'r cydlynydd ymddygiad gwrthgymdeithasol yn gofyn am atgyweiriad TG pellach drwy'r System Rheoli Troseddau i alluogi swyddogion i nodi troseddau sy'n gysylltiedig ag ymddygiad gwrthgymdeithasol. Bydd hyn yn sicrhau na chaiff cyfleoedd datrys problemau eu colli gan y timau cymdogaeth. | |

[i] Y Swyddfa Ystadegau Gwladol, Crime in England & Wales, year ending September 2018 - tablau PFA, Tabl P3, cyhoeddwyd Chwefror 2019

[ii] Rhennir pob trosedd rhwng dau brif grŵp troseddau: troseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr a throseddau eraill yn erbyn cymdeithas. Troseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr yw'r rhai sydd â dioddefwr penodol y gellir ei adnabod. Felly, er enghraifft, nid yw rhai troseddau yn erbyn y Wladwriaeth megis twyll treth yn cael eu dosbarthu fel troseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr. Yn ogystal, gellir gwahanu troseddau sy'n seiliedig ar ddioddefwyr yn droseddau yn erbyn pobl a chartrefi a throseddau yn erbyn busnesau. Gweler: ONS, *User Guide to Crime Statistics for England and Wales,* Jan 2018 (Pennod 5).